

Agenda

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Cyhoeddus o Fwrdd CNC
Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Iau 21 Mawrth 2024
Amser y cyfarfod:	09:30 – 11:20
Lleoliad:	Microsoft Teams

Amser	Eitem
09:30	Eitem 1. Cyfarfod Agored
5 mun	<ul style="list-style-type: none">• Croeso• Datganiad o Fuddiannau• Esbonio trefn y cyfarfod <p>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p> <p>Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant</p>
09:35	Eitem 2. Adolygu Cofnodion a Log Gweithredu
5 mun	<p>2A. Adolygu Cofnodion o Gyfarfod Cyhoeddus 2 Chwefror</p> <p>2B. Adolygu Log Gweithredu Cyhoeddus</p> <p>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p> <p>Crynodeb: CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r Log Gweithredu</p>
09:40	Eitem 3. Diweddariad y Cadeirydd
5 mun	<p>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p> <p>Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd</p>
09:45	Eitem 4. Adroddiad y Prif Weithredwr
15 mun	<p>Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr</p>

Crynodeb: NODI'R sefyllfa bresennol a diweddaru'r Bwrdd ar y prif weithgareddau

Cyf y Papur: 24-03-B02

10:00

Eitem 5. Adroddiadau Diweddaru Pwyllgorau a Fforymau

20 mun

Noddwyr a Chyflwynwyr: Cadeiryddion Pwyllgorau

- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – 7 Mawrth
- Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth – 16 Ionawr
- Pwyllgor Cyllid – 8 Chwefror a 5 Mawrth
Cyf y Papur: 24-03-B03
- Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
- Pwyllgor Ystad Tir – 13 Chwefror
Cyf y Papur: 24-03-B04
- Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid – 1 Mawrth
Cyf y Papur: 24-03-B05
- Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – 22 Chwefror
Cyf y Papur: 24-03-B06
- Fforwm Rheoli Tir Cymru
Cyf y Papur: 24-03-B07
- Fforwm Pysgodfeydd Cymru
- Fforwm Rheoli Dŵr Cymru
- Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru

Crynodeb: NODI diweddariadau Pwyllgorau'r Bwrdd a Fforymau CNC, y tu mewn a'r tu allan a chyfarfodydd a gynhaliwyd

10:20

Eitem 6. Adroddiad Perfformiad Cyllid

15 mun

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

Crynodeb: CYMERADWYO'R sefyllfa ariannol ddiweddaraf

Cyf y Papur: 24-03-B09

10:35

Eitem 7. Adroddiad Chwarter 3 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ac Adroddiad Perfformiad Mewnol Chwarter 3

20 mun

Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Yn bresennol: Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a Swyddfa Rheoli Rhaglen; Kirsten Hughes, Cynghorydd Arbenigol

Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad; Sue Ginley,
Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad

**Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Chwarter 3 Dangosfwrdd
Perfformiad y Cynllun Busnes ac Adroddiad Perfformiad Mewnol
Chwarter 3**

Cyf y Papur: 24-03-B10

10:55

Eitem 8. Eitemau i'w Cymeradwyo

0 mun

a. Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch Chwarter 3

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth
Gorfforaethol a Datblygu

**Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Llesiant, Iechyd a
Diogelwch ar gyfer Chwarter 3**

Cyf y Papur: 24-03-B11

10:55

Eitem 9. Unrhyw Fater Arall

5 mun

11:00

Cau'r Cyfarfod

11:00

Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus

20 mun

11:20

Cau'r Cyfarfod Cyhoeddus

Cofnodion heb eu Cadarnhau

Teitl y Cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus
Lleoliad:	Y Ganolfan Reoli, Bangor a Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	2 Chwefror 2024
Aelodau'r Bwrdd yn bresennol:	Syr David Henshaw, Cadeirydd Clare Pillman, Prif Weithredwr Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd Geraint Davies Yr Athro Peter Fox Yr Athro Calvin Jones Lesley Jones Yr Athro Rhys Jones Mark McKenna Kath Palmer Helen Pittaway Dr Rosie Plummer
Aelodau o'r Tîm Gweithredol yn bresennol:	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Victoria Rose-Piper, Pennaeth Trawsnewid Busnes ac Adfywio, yn dirprwyo ar ran Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Mynychwyr yn bresennol:	Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (Pob eitem) Martin Cox, Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-orllewin (Pob eitem) Rob Bell, Pennaeth Cyllid (Eitemau 6 a 7) Clive Walmsley, Uwch Gynghorydd Arbenigol (Eitem 8) Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio Lucia Watts, Cynghorydd Arbenigol – Risg Hinsawdd ac Addasu (Eitem 8)

	<p>Mary Lewis, Rheolwr Mannau Cynaliadwy, Tir a Môr (Eitem 8)</p> <p>Harrhy James, Cynghorydd Arbenigol – Timau Risg Hinsawdd ac Addasu (Eitem 8)</p> <p>Huwel Manley, Pennaeth Timau Gweithrediadau'r De-orllewin (Sesiwn holi ac ateb cyhoeddus)</p>
Sylwedyddion CNC:	<p>Bhuvaneswari Marrisudi, Prentis Bwrdd</p> <p>Jacqui Kedward, Pennaeth Archwilio Mewnol</p> <p>Tamana Tomlinson, Arweinydd Tîm a Chynorthwydd Gweithredol y Prif Weithredwr</p>
Sylwedyddion Cyhoeddus:	<p>Jane Thomas</p> <p>Robert Meyer</p> <p>Kim Waters – Undeb Afonydd Cymru</p> <p>Jenny Lampard</p> <p>Jim Ralph</p> <p>Aelodau ychwanegol o'r cyhoedd</p>
Ymddiheuriadau:	<p>Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid</p>
Ysgrifenyddiaeth:	<p>Natalie Williams, Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd ac Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd</p> <p>Jocelyn Benger, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd</p>
Datganiadau o fuddiant:	<ul style="list-style-type: none"> • Dr Rosie Plummer - Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - rhyngweithio eang â CNC gan gynnwys dynodi tirwedd y Parc Cenedlaethol ac amddiffyniadau gan gynnwys afonydd ACA, parthau Morol, derbynnydd grantiau amrywiol a chydweithredwr; Ymddiriedolwr Plantlife – rhyngweithio eang gan gynnwys cyfannu at brosiect Natur am Byth a derbynnydd cyllid Rhwydweithiau Natur Glaswelltiroedd Gwydn • Yr Athro Steve Ormerod – Datganiad newydd: Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Wyddoniaeth ac Aelod o'r Bwrdd Marchnadoedd Amgylcheddol newydd; Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod • Geraint Davies – Mentor gyda Cyswllt Ffermio; Cydymaith Canolfan Ymchwil Ucheldir Pwllpeiran • Syr David Henshaw – Byw yn ardal chwilio am Barc Cenedlaethol newydd arfaethedig • Clare Pillman – Byw yn ardal chwilio am Barc Cenedlaethol newydd arfaethedig

Eitem 1. Agor y cyfarfod

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod gan estyn croeso i bawb ac egluro trefn y cyfarfod. Nodwyd datganiadau o ddiddordeb ac ymddiheuriadau fel uchod.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Log Gweithredu

Eitem 2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 16 Ionawr

2. Adolygwyd a chytunwyd ar gofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd.

Eitem 2B. Adolygu'r Log Gweithredu

3. Adolygwyd a chytunwyd ar y Log Gweithredu.

Eitem 3. Diweddariad gan y Cadeirydd

4. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd fod amserlen brysur o gyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda Gweinidogion a swyddogion. Nodwyd y sefyllfa gyllidebol anodd i Lywodraeth Cymru (LIC) a CNC.
5. Croesawyd Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd newydd y Bwrdd, a Bhuaneswari Marripudi, Prentis newydd y Bwrdd.

Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

6. Rhoddodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf am eitemau yn ychwanegol at yr Adroddiad ysgrifenedig.
7. Roedd llawer iawn o waith wedi digwydd ac wedi parhau ar her y gyllideb eleni a'r flwyddyn nesaf.
8. Bu'n gyfnod o weithgarwch dwys i Lywodraeth Cymru, yr undebau amaeth a phawb sy'n ymwneud â ffermio, wrth i'r ymgynghoriad terfynol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) agor. Cyfarfu'r Prif Weithredwr â Chyngor Cymru yr NFU a Changen Meirionnydd, Undeb Amaethwyr Cymru, a mynychodd y digwyddiadau a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru a'r undebau amaeth. Cydnabuwyd lefel y diddordeb, pryderon ac ymgysylltu. Byddai CNC yn ymateb i ymgynghoriad SFS.
9. Nodwyd cyhoeddiad y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y Papur Gwyn i sefydlu egwyddorion amgylcheddol, llywodraethu a'r fframwaith ar gyfer targedau bioamrywiaeth i Gymru. Byddai CNC yn ymwneud â'r broses o osod y targedau'r fframwaith. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn pennu'r fframwaith ar gyfer Asesydd Diogelu'r Amgylchedd parhaol i Gymru.

10. Cafwyd diweddariad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ar y stormydd a enwyd yn ddiweddar, Isha a Jocelyn. Nodwyd maint yr her a achoswyd gan yr holl stormydd hyn. Roedd rhai cymunedau wedi eu heffeithio, er nad oedd y llifogydd yng Nghymru ar raddfa gynddrwg â stormydd blaenorol. Roedd staff wedi bod ar alwad ers cyn y Nadolig, gyda rotas wedi dyblu dros gyfnod yr ŵyl. Roedd y staff ar ymwybyddiaeth uwch ers misoedd a diolchwyd i'r holl staff hynny ar ran y Bwrdd.
11. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau y nifer cynyddol o gwynion am arogleuon a gafwyd gan y cyhoedd am safle tirlenwi Wityhedge yn Sir Benfro. Cydnabuwyd pryderon y gymuned leol. Roedd CNC wedi mynychu cyfarfod cyhoeddus diweddar a rhoddwyd sicrwydd bod CNC yn gwneud popeth posibl drwy'r rôl reoleiddio ac yn gweithio gyda'r gweithredwr i sicrhau bod y safle'n cydymffurfio â'r rheolau unwaith eto. Anogodd y Cadeirydd y cwmni safle tirlenwi i gydymffurfio cyn gynted â phosibl, gan dynnu sylw at y ffaith eu bod yn methu yn eu dyletswydd i'r gymuned.

Eitem 5. Adroddiadau Diweddarau Pwyllgorau a Fforymau

12. Cyflwynodd Catherine Brown, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen, a thynnwyd sylw at yr elfennau canlynol: adroddiad cadarnhaol Archwilio Cymru ar osod yr Amcanion Llesiant (WBOs); derbyniwyd pedwar Adroddiad Archwilio Mewnol; nodwyd cynnydd da ar y Cynllun Archwilio Mewnol eleni.
13. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth (EAC) ddiweddariad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr. Derbyniwyd eitemau ar ymateb CNC i helpu i gyflawni o dan Dargedau Bioamrywiaeth Cymru. Adolygwyd y Gynhadledd Dystiolaeth Flynyddol. Cafodd ei nodi fel digwyddiad pwysig a defnyddiol a helpodd CNC i ryngweithio ag ymchwilwyr proffesiynol. Ystyriwyd materion monitro ansawdd dŵr, gyda staff yn chwilio am y ffyrdd gorau o fonitro dyfroedd yn fwyaf effeithlon gyda chyllideb sy'n lleihau.
14. Diweddarodd Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid (FC) y Bwrdd ar y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr a 10 Ionawr. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Roedd y ddau gyfarfod wedi ystyried cymeradwyaeth ariannol, a'r gyllideb a'r rhagolygon ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Hefyd, roedd cyfarfod mis Rhagfyr wedi craffu ar y sefyllfa ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r gwersi gorwario a ddysgwyd yn y Rhaglen Cyfalaf Llifogydd. Cafodd drafft cychwynnol y Cynllun Cyllideb a Busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ei rannu â'r Bwrdd yng nghyfarfod y diwrnod blaenorol. Roedd cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid ym mis Chwefror a mis Mawrth yn cynnwys gwahoddiad agored i holl aelodau'r Bwrdd fod yn bresennol.
15. Cyflwynodd Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Derbyniwyd diweddariad ar ymateb CNC i'r stormydd, a chafodd nodyn o ddiolch a gwerthfawrogiad gan FRMC ei anfon at yr holl aelodau staff oedd yn rhan o'r ymateb. Cafwyd adroddiad cynnydd ar gynlluniau cyfalaf; byddai'r cynlluniau hyn yn cynnig mwy o amddiffyniad llifogydd i drigolion lleol. Trafodwyd y

papur gwersi gorwario a ddysgwyd ac roedd gwaith yn digwydd ar weithredu'r hyn a ddysgwyd. Cafodd cynllun afon lanw Dyfi ei ystyried a'i argymhell ar gyfer gwaith pellach. Cafodd cynigion cyllideb Ardaloedd Draenio Mewnol eu craffu a'u cymeradwyo.

16. Cyflwynodd yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd Pwyllgor yr Ystad Tir (LEC), ddiweddariad i'r Bwrdd. Roedd y gwaith ar y Strategaeth Hamdden yn mynd rhagddo a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mai. Cytunodd ARAC i ymestyn sawl cam gweithredu o ganlyniad i Archwiliadau Mewnol mewn Stiwardiaeth Tir; roedd y rhain wedi derbyn barn gymedrol. Darparwyd diweddariad ar Gynllun Sicrwydd Coetir y DU (UKWAS). Nodwyd effaith bosibl cyfyngiadau adnoddau ar ganlyniadau archwiliadau UKWAS yn y dyfodol. Roedd LEC wedi clywed am y swm diweddaraf o bren i'r farchnad.
17. Cyflwynodd Mark McKenna, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Roedd y cyfarfod yn un cadarnhaol ac yn cynnwys cyflwyniad gan y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid. Craffwyd ar Adroddiad Chwarter 2 Llesiant, Iechyd a Diogelwch, a nododd y Pwyllgor fod y diwylliant yn gadarnhaol ar y cyfan. Cafwyd diweddariadau amrywiol, gan gynnwys trafodaeth bellach ar gymhlethdodau a heriau Bro'r Sgydau. Craffwyd ar y Cynllun Strategol Cyfathrebu a chroesawyd ei gysylltiad â'r Cynllun Corfforaethol.
18. Cyflwynodd Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig, y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref. Fel y nodwyd yn Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol, cafodd Gweld y Coed ei gadarnhau'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) heb wrthwynebiad. Nodwyd bod hyn yn ffrwyth misoedd o waith gyda thirfeddianwyr. Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar ardal chwilio am y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig a'r broses ddynodi.
19. Aeth yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF), ati i ddiweddarau'r Bwrdd. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Cynhaliwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol ar Goedwigaeth (RAC). Diolchwyd i holl staff CNC fu'n rhan o'r cyfarfod. Rhoddodd Grŵp Technegol Amaethyddol Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) y wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad drafft. Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd o Is-grŵp WLMF ar Lygredd Amaethyddol gyda Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru i ganolbwyntio ar yr adroddiad cydymffurfio a llygredd dip defaid. Roedd dod â'r Fforymau at ei gilydd wedi gweithio'n dda a bod gweithdy dilynol ar lygredd dip defaid yn cael ei drefnu.
20. Diweddarodd yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru (WFF) a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (WWMF) y Bwrdd, gan nodi bod pawb wedi gwerthfawrogi'r cyfarfod ar y cyd â'r WLMF ynghylch y pryder cyffredin hwn. Roedd y WFF wedi cyfarfod ar 27 Tachwedd a chafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod. Roedd prosiect peilot yn digwydd yn afon Wysg. Roedd y pryderon am rywogaethau eogiaid wedi dominyddu'r cyfarfod. Cymerwyd y papur diweddarau ar gyfarfod diweddar WWMF fel y darllenwyd.

21. Cyflwynodd Geraint Davies, Cadeirydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (NAFW), ddiweddariad i'r Bwrdd. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Tynnwyd sylw at y cyflwyniad ar brosiect Croesi'r Ffiniau ar Lwybr Mawr Morgannwg. Roedd disgwyl i'r Gweinidog Newid Hinsawdd fod yn bresennol ond roedd aelodau'r Fforwm yn siomedig pan gafodd ei ganslo eto, er ein bod yn gobeithio aildrefnu. Cafwyd diweddariad defnyddiol ar faterion Bro'r Sgydau.
22. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd. Cadarnhawyd bod Lesley Jones wedi cytuno i fod yn aelod dros dro o ARAC ar gyfer cyfarfodydd mis Mawrth, Mehefin a Medi 2024, er y gofynnwyd i'r Bwrdd gytuno bod y Cadeirydd yn cael ei ddirprwyo i fynychu cyfarfod ARAC ym mis Mawrth oherwydd ymrwymadau blaenorol Lesley Jones. Cytunodd y Bwrdd ar y camau canlynol.

PENDERFYNIAD: Lesley Jones i fod yn aelod dros dro o ARAC ar gyfer y cyfarfodydd mis Mawrth, Mehefin a Medi 2024, gyda'r Cadeirydd yn dirprwyo i fynychu cyfarfod ARAC ym mis Mawrth 2024

Eitem 6. Adroddiad am Berfformiad Ariannol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

23. Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr eitem a rhoddodd drosolwg o'r papur, gan nodi bod yr Adroddiad yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd mis Tachwedd. Craffwyd arno gan y Tîm Gweithredol (ET) a'r Pwyllgor Cyllid. Darparwyd trosolwg o'r sefyllfa Refeniw. Nodwyd bod hyn yn olrhain proffil, ond ei fod yn cuddio rhai o'r pwysau ar gyllidebau. Roedd cynigion ar gydbwysu'r gyllideb drwy £2m o ostyngiadau ar draws CNC wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd; roedd hyn yn cynnwys mesurau cynyddu'r tâl i raglenni a phrosiectau, a'r newid yn y rheolau cyfrifo yn ymwneud â phrydlesi. Cafodd hyn ei dderbyn yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr. Erbyn hyn, roedd gor-raglennu wedi gostwng i £0.5m.
24. Rhoddwyd diweddariad ar fater arbedion cyflog a'r angen i wneud tua £2m o arbedion, a oedd tua £1.1m ar hyn o bryd gyda rheolaethau recriwtio ar waith. Roedd pwysau ychwanegol ers yr Adroddiad yn cynnwys: gostyngiad arall mewn rhagolygon incwm pren; problem cladin Tŷ Cambria; y mater yn ymwneud ag archwilio hawliad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), er bod disgwyl cadarnhad ar hyn - roedd darpariaeth wedi ei wneud a byddai adroddiad pellach yn cael ei ddarparu i ARAC ym mis Mawrth. Roedd y Pwyllgor Cyllid wedi cael gwybod. Rydym yn dal i chwilio am ostyngiadau pellach yn y gyllideb, a fyddai'n cael eu coladu a'u cyflwyno i'r Tîm Gweithredol i ystyried yr holl effeithiau. Darparwyd diweddariad ar wariant cyfalaf, a oedd yn mynd rhagddo'n dda. Roedd LIC wedi cael gwybod am y pwysau bach yn y Rhaglen Cyfalaf Llifogydd. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r newid i'r rhagolygon o £266.9m i £270.2m.
25. Bu'r Bwrdd yn trafod cynnwys yr Adroddiad, gan nodi y byddai'r newidiadau diweddaraf yn cael eu hadrodd i'r Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Cyllid. Cydnabuwyd y pwysau ar y gyllideb. Holodd aelodau'r bwrdd am achosion y gostyngiad mewn incwm codi tâl ac a oedd patrwm neu wybodaeth ar gael am y rhesymau y tu ôl i hyn. Clywodd y Bwrdd fod y Tîm Gweithredol wedi ystyried y mater hwn a gofynnodd i'r Pennaeth Rheoleiddio a

Thrwyddedu i wneud darn o waith ar hyn ar ôl diwedd y flwyddyn i roi ymdeimlad o unrhyw newid mewn ymddygiad ac unrhyw effeithiau posibl i'w hystyried. Cadarnhawyd y byddai'r Adolygiad o'r Tâl Rheoleiddio Blynyddol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesa'r Pwyllgor Cyllid a Galwad Diweddarau'r Bwrdd ym mis Chwefror.

26. Cymeradwyodd y Bwrdd y newid yn y gyllideb wreiddiol o £266.9m i £270.2m a ragwelir a nodwyd y perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2023.

CYMERADWYWYD: Y newid yn y gyllideb wreiddiol o £266.9m i £270.2m a ragwelir

Eitem 7. Cyllideb Ardaloedd Draenio Mewnol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

27. Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y cynigion ar gyfer Praeseptau, Cyfraddau ac Ardollau Ardaloedd Draenio Mewnol (IDDs) ar gyfer 2024/25 i'w cymeradwyo i'r Bwrdd. Cafwyd crynodeb o'r manylion yn y papur. Roedd FRMC wedi craffu a chymeradwyo'r cynigion yn y cyfarfod ar 11 Ionawr. Ar gyfer 2024/25, cynigiwyd cynyddu: Praeseptau o 3% i £327k; Ardollau arbennig i £1417k; Cyfraddau draenio i £205k. Roedd hyn yn gynydd o 4% ar Ardollau Arbennig a Chyfraddau Draenio. Roedd Grwpiau Cynghori wedi cyfarfod ar draws y Gogledd a'r De. Roedd CNC yn ymwybodol o'r pwyntiau a'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid ar ansawdd y gwaith, fodd bynnag, roedd y rhain y tu allan i gylich gwaith y papur. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r cynigion fel y manylwyd arnynt yn y papur.

28. Fe wnaeth yr Athro Pete Fox fel Cadeirydd FRMC, sylw ar y trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod diweddar FRMC, gan nodi bod rheoli Ardaloedd Draenio Mewnol yn fater hanesyddol ac yn parhau i fod yn faen tramgwydd ar gyfer trafodaeth gyda ffermwyr.

29. Bu aelodau'r Bwrdd yn trafod pa mor ddigonol oedd y dull gweithredu wrth symud ymlaen, gan gydnabod y cyd-destun hanesyddol. Holwyd am y geiriad ym mharagraff 7 o'r atodiad i'r papur a chytunodd y Pennaeth Cyllid i egluro hyn.

CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Cyllid i egluro'r geiriad a ddefnyddir ym mharagraff 7 o'r atodiad i'r papur IDD

30. Cymeradwyodd y Bwrdd yr eitemau a fanylir yn y papur.

CYMERADWYWYD: Ardollau arbennig, cyfraddau draenio a phraeseptau Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2024-25

CYMERADWYWYD: Awdurdodi rhoi'r sêl gyffredin ar y Cyfraddau Draenio Cymeradwy

CYMERADWYWYD: Dirprwyo cyfrifoldeb y Bwrdd dros gymeradwyo datganiadau blynyddol ar gyfer 2023/24 i Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Eitem 8. Cynllun Addasu CNC

Cyflwynwyr: Clive Walmsley, Uwch Gyngorydd Arbenigol, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio; Lucia Watts, Cynghorydd Arbenigol – Risg Hinsawdd ac Addasu i'r Hinsawdd

31. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yr eitem. Nodwyd camau penodol y Cynllun Corfforaethol ar allu cymunedau i wrthsefyll newid hinsawdd. Roedd y Cynllun Addasu a gyflwynwyd i'r Bwrdd i'w gymeradwyo yn ystyried sut oedd CNC yn gweithredu ac yn cynllunio ei gyloch gwaith.
32. Cyflwynodd yr Uwch Gyngorydd Arbenigol, Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio gefndir yr eitem, a gyflwynwyd i'r Bwrdd ddiwethaf yn 2020, gan nodi y gallai'r gymuned wyddonol nawr briodoli digwyddiadau tywydd i newid hinsawdd. Amlygwyd amlder a maint digwyddiadau tywydd. Pwysleisiwyd bod yr addasiad hwnnw'n amlochrog, ac yn cynnwys cyfrifoldebau personol, cymunedol ac awdurdod. Roedd angen i CNC fod yn gadarn er mwyn lleihau'r risg ar faterion newid hinsawdd. Cafodd trafodaeth strategol ar ddatgarboneiddio ei chynllunio ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.
33. Rhoddodd y Cynghorydd Arbenigol, Risg Hinsawdd ac Addasu i'r Hinsawdd gyflwyniad yn crynhoi'r manylion yn y papur. Disgrifiwyd cyfrifoldeb CNC dros gynllunio addasu a ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd o fewn y Cynllun Addasu. Rhannwyd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2021, a disgrifiwyd y risgiau a'r cyfleoedd, gan nodi'r lefel gynyddol o risg, a oedd wedi gweld cynnydd o 20% mewn pedair blynedd. Disgrifiwyd yr Asesiad Risg Sylfaenol, a oedd yn nodi bod pob rhan o CNC mewn perygl yn sgil newid hinsawdd. Esboniwyd y broses ymgynghori o fewn CNC. Roedd y canlyniadau a'r canfyddiadau wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Addasu. Disgrifiwyd themâu blaenoriaeth Cynllun Addasu 2023-27 a'u cysylltiadau â'r Cynllun Corfforaethol, a rhannwyd enghreifftiau. Y bwriad oedd cyhoeddi ar gyfer gwanwyn 2024, ac yna datblygu a gweithredu'r Cynllun Cyflawni yn ystod 2024 gyda llywodraethu drwy'r Grwpiau Busnes. Disgrifiwyd datblygiad a champau yn y dyfodol, gyda'r uchelgais o ddatblygu Cynllun Addasu newydd bob pum mlynedd a fyddai'n esblygu mewn ymateb i bolisi, tystiolaeth ac anghenion busnes.
34. Croesawodd y Bwrdd y Cynllun Addasu ac roedd pawb yn gwerthfawrogi'r gwaith traws-sefydliadol a'r sail dystiolaeth gyfoethog. Er ei bod yn ddogfen weithredol, dywedodd aelodau'r Bwrdd y byddai'n bwysig iddi fwydo i gynllunio strategol a sicrhau ei bod yn cael ei hymgorffori yn rhaglenni newid CNC. Dylai fod yn rhan o'r themâu trawsbynciol ar gyfer gwneud penderfyniadau.
35. Codwyd pwynt penodol ar y geiriad ar dudalen 20. Nodwyd mai'r sbardun dros newid cynhyrchiant coedwigaeth oedd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) yn hytrach na thargedau cynhyrchu.
36. Roedd y materion sy'n ymwneud â newid hinsawdd yn hysbys ers blynyddoedd lawer ac mae angen cymryd camau brys erbyn hyn. Hefyd, mae'n bwysig i CNC osod y safonau, ac roedd y gwaith ar Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol wedi galluogi hynny. Cydnabuwyd rôl arweinyddiaeth y Bwrdd yn y mater hwn ar gyfer y sefydliad a Chymru. Mae cysylltiadau a rhyngweithiau CNC â'r Byrddau Gwasanaethau

Cyhoeddus (BGC), sefydliadau eraill, a rhanddeiliaid yn darparu llwybr ar gyfer eirioli a gweithredu. Awgrymwyd y gellid defnyddio'r Cynllun Addasu fel darn enghreifftiol ar gyfer awdurdodau lleol.

37. Pwysleisiwyd yr elfen o frys, a bod angen rhoi blaenoriaeth i gyflymder gweithredu a chyflawni addasiadau.
38. Cydnabuwyd mai hwn oedd fersiwn gyntaf y Cynllun Addasu ond argymhellwyd dull o ymdrin ag atebion radical a chynnwys gweledigaeth radical ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Nodwyd y byddai'r Cynllun yn datblygu wrth symud ymlaen.
39. Nodwyd meysydd gwaith eraill CNC a oedd hefyd yn canolbwyntio ar y dull o addasu. Roedd Amcanion Llesiant pob Cynllun Gorfforaethol yn cael eu harwain gan aelod o'r Tîm Gweithredol, gyda strwythur isod i edrych ar waith ar draws y sefydliad. Pwysleisiwyd eiriolaeth a sut oedd CNC yn gweithio gyda'i gadwyn gyflenwi.
40. Codwyd camau gweithredu'r cynllun ar gyfer sero net ac effaith carbon. Eglurwyd y byddai'r rhain yn cael cyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer trafodaeth strategol ym mis Medi. Pwysleisiodd aelodau'r Bwrdd yr angen i sicrhau bod y materion hyn yn cyd-fynd â'r rhaglenni newid sy'n digwydd.
41. Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu gwaith. Roedd y Bwrdd yn cymeradwyo cyhoeddi Cynllun Addasu CNC.

CYMERADWYWD: Cynllun Addasu CNC

Eitem 9. Eitemau i'w cymeradwyo

Eitem 9a. Adroddiad Chwarter 2 Llesiant, Iechyd a Diogelwch

42. Cyflwynodd y Gyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu yr eitem, gan nodi fod PCC wedi craffu ar hyn yng nghyfarfod 12 Rhagfyr.
43. Gofynnodd aelodau'r bwrdd am sicrwydd ar gwblhau hyfforddiant Iechyd a Diogelwch gorfodol a chawsant wybod ei fod yn cael ei ystyried yn Wyrdd o ran statws Coch, Oren, Gwyrdd y dangosfwrdd.
44. Cymeradwyodd y Bwrdd yr Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch ar gyfer Adroddiad Chwarter 2.

CYMERADWYWD: Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 2.

Eitem 9b. Diwygiadau i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS)

45. Cyflwynwyd yr eitem gan Gyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu, a nododd ei bod wedi'i chymeradwyo drwy ohebiaeth gan y Bwrdd.

NODWYD: Bod y Bwrdd wedi cymeradwyo, trwy ohebiaeth, linell newydd a ychwanegwyd at y Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS) i nodi unigolyn cymwys

sy'n gallu cymeradwyo eithriadau i'r ddyletswydd i ddatgelu gwybodaeth sy'n ofynnol dan gais Rhyddid Gwybodaeth, lle gallai'r wybodaeth honno beri anfantais i gynnal materion cyhoeddus

Eitem 10. Unrhyw Fater Arall

46. Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

Daeth y cyfarfod i ben

Sesiwn holi ac ateb gyhoeddus

47. Eglurodd y Cadeirydd fod CNC yn ystyried sut mae'r sefydliad yn ymwneud â'r cyhoedd, gan gydnabod nad oedd y sesiwn holi ac ateb cyhoeddus yn senario delfrydol.

48. Derbyniwyd cwestiynau a chafwyd ymatebion ar y materion canlynol.

49. Colin Barnett – Problemau safle tirlenwi Wityhedge. Fel y gofynnodd Mr Barnett, rhannwyd ei bryderon â'r Bwrdd. Roedd diweddariad ar y mater hwn wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Prif Swyddog Gweithredol a'i nodi'n gynharach yn y cyfarfod. Roedd staff CNC wedi ymweld â'r safle, a chyfarfod cymunedol wedi'i gynnal. Ategodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau fod CNC yn gweithio gyda'r cwmni i sicrhau bod y safle yn cydymffurfio eto.

50. Robert Meyer – Arglawdd Tan Lan. Ymatebodd yr Athro Pete Fox, Cadeirydd FRMC. Diolchwyd i Mr Meyer am ei gwestiynau, a chadarnhawyd y byddai ateb manwl yn dilyn. Nodwyd a rhannwyd pryderon gan rai o'r cymunedau llai yng Nghymru. Cafwyd briffiau gan aelod o'r Bwrdd, Geraint Davies, a chydweithwyr eraill. Nodwyd bod yr astudiaeth ar fin cael ei chwblhau. Amlygwyd costau buddsoddiad cyhoeddus parhaus, ac eglurwyd nad oedd buddsoddiad pellach yn debygol o fod oherwydd polisi a blaenoriaethau buddsoddi. Byddai Martin Cox, Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-orllewin, yn parhau i drafod y mater hwn.

51. Cadarnhaodd Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-orllewin fod yr effaith ar seilwaith wedi'i chynnwys fel rhan o'r astudiaeth, gan nodi bod ymgynghoriad wedi digwydd gyda Network Rail a rhanddeiliaid. Gofynnodd Mr Meyer am gopi o'r astudiaeth fusnes a'r adroddiad. Cadarnhawyd y byddai'n cael ei rannu maes o law.

52. Jane Thomas – Canolfannau Ymwelwyr. Ymatebodd yr Athro Calvin Jones, fel Cadeirydd LEC. Pwysleisiwyd nad dyma oedd y sefyllfa delfrydol i CNC, ond bod y sefydliad yn wynebu diffygion ariannol sylweddol wrth symud ymlaen ac angen gwneud newidiadau i gyflawni cyllideb gytbwys. Roedd Canolfannau Ymwelwyr wedi cael llawer o sylw cyhoeddus, ond roedd CNC yn edrych ar draws y busnes cyfan am arbedion ac yn ceisio gwneud hyn gyda phwyslais ar gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Roedd hyn yn fwy heriol a chymhleth, ac angen dod â gwybodaeth o bob cwr o'r sefydliad. Nid oedd cyllideb 2024/25 wedi'i chwblhau eto ac nid oedd y Bwrdd wedi cael cais i gymeradwyo

unrhyw benderfyniadau ar ganolfannau ymwelwyr. Roedd gwybodaeth reoli yn cael ei chasglu ar gyfer penderfyniad erbyn diwedd mis Mawrth. Roedd yn bwysig osgoi cyfuno lefel y gwasanaethau a gallu'r cyhoedd i gael mynediad at dir. Byddai mynediad cyhoeddus i'r tir yn cael ei gynnal, ond pa fath o wasanaethau a ddarperir oedd dan ystyriaeth. Lle na allai CNC barhau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, byddai'n chwilio am eraill i ysgwyddo'r gwasanaethau hynny.

53. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol y byddai CNC yn parhau i ddiogelu'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a'r safleoedd o amgylch y canolfannau ymwelwyr a sicrhau y gallai natur ffynnu. Byddai CNC yn parhau i sicrhau mynediad cyhoeddus ac eisiau parhau i weithio gyda'r gymuned a darparwyr i sicrhau parhad.
54. Kim Williams – Canolfannau Ymwelwyr. Cyflwynwyd ystod eang o gwestiynau a fyddai'n cael eu hateb drwy ohebiaeth.
55. Kim Waters – materion ansawdd dŵr. Cyflwynwyd y rhain yn ystod y cyfarfod drwy'r cyfleuster sgwrsio a byddant yn cael eu hystyried y tu allan i'r cyfarfod.
56. Jenny Lampard – Canolfannau Ymwelwyr. Trwy'r sgwrsfan yn ystod y cyfarfod, holodd sut y gallai'r cyhoedd helpu gyda chynnal a buddsoddiad canolfannau ymwelwyr.
57. Myfyriodd y Bwrdd ar sut oedd y Bwrdd yn rhyngweithio â'r cyhoedd yng nghyfarfod y Bwrdd. Gofynnodd y Bwrdd i'r rhestr o gwestiynau cyhoeddus gael eu hychwanegu at system Diligent i gyfeirio atynt.

CAM GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu cwestiynau cyhoeddus at system Diligent ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol

Daeth y Cyfarfod Cyhoeddus i ben

Log Gweithredu'r Bwrdd – Cyhoeddus

Rhif Cam Gweithredu	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif Eitem	Rhif Paragraff	Noddwr y Papur	Cam Gweithredu	Perchennog	Dyddiad cwblhau	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
1	Cyhoeddus	27/01/2023	7	32	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol FCS	CAM GWEITHREDU: FRMC i ystyried costau llawn yr Ardaloedd Draenio Mewnol ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid	Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau; Rob Bell, Pennaeth Cyllid	18/04/2024	Parhaus	I'w ystyried yn FRMC Ebrill 2024. Oedi oherwydd adnoddau / blaenoriaethau staff.
2	Cyhoeddus	27/01/2023	9	47	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i ddatblygu'r dull o ymdrin â sesiynau ymgysylltu cyhoeddus y Bwrdd yn seiliedig ar le	Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd	01/05/2024	Parhaus	Opsionau ar gyfer ymgysylltiad y Bwrdd â'r cyhoedd yn cael eu datblygu. Y dull i'w gytuno gyda'r Cadeirydd a'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd newydd y Bwrdd.
11	Cyhoeddus	02/02/2024	7	29	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol FCS	CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Cyllid i egluro'r geiriad a ddefnyddir ym mharagraff 7 o'r atodiad i'r papur IDD	Rob Bell, Pennaeth Cyllid	29/02/2024	Cwblhawyd	Cadarnhad y dylid dileu'r geiriad "mewn egwyddor".
12	Cyhoeddus	02/02/2024	Holi ac Ateb Cyhoeddus	56	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu cwestiynau cyhoeddus at borth Diligent ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol	Ysgrifenyddiaeth	20/03/2024	Cwblhawyd	

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	21 Mawrth 2024
Teitl y papur:	Adroddiad y Prif Weithredwr (Sesiwn Gyhoeddus)
Cyfeirnod y Papur:	24-03-B02
Cyflwynir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Diben y Papur:	Gwybodaeth a thrafodaeth
Crynodeb	Mae'r papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion cyfredol.

Cyflwyniad

- Roedd cryn bwyslais ar gyfathrebu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ynghyd â gweddill y Tîm Gweithredol, rwyf wedi bod yn hysbysu cydweithwyr ar draws y sefydliad am ein sefyllfa gyllidebol a'r broses barhaus o flaenoriaethu a blaengynllunio. Yn ddealladwy, mae teimladau cryf a phryder sylweddol mewn llawer o dimau wrth i ni ystyried opsiynau i leihau ein costau a'n gwariant. Ym mis Chwefror, cynhaliodd Prys Davies a minnau sesiwn holi ac ateb ar Teams, a ddenodd bron i fil o gydweithwyr. Er bod y cwestiynau yn ymdrin â llawer o bynciau, roedd pryder amlwg am effaith rhewi'r broses recriwtio, y gofynion parhaus ar dimau a llesiant cydweithwyr sydd eisoes dan bwysau o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol a staffio.
- Roeddwn i'n falch o allu mynychu'r hyfforddiant Argyfwng Hinsawdd ym Mhrifysgol Caerdydd ym mis Chwefror, ochr yn ochr â llawer o gydweithwyr yn y tîm arweinyddiaeth. Roedd y gweithdy undydd, a gyflwynwyd gan Cannal Cymru, yn ymdrin â chyd-destun eang newid hinsawdd yn ogystal â'r sefyllfa yng Nghymru ac o fewn CNC, gan arwain at ystyried beth arall allwn ni ei wneud fel unigolion a thimau i helpu i leihau ein hallyriadau carbon. Prif nod y cwrs oedd llywio camau cadarnhaol, a bydd ein tîm Argyfwng Hinsawdd yn datblygu proses i werthuso effeithiolrwydd yr hyfforddiant a'r gwerth ychwanegol ar ôl chwech i ddeuddeg mis.
- Yn y cyfnod peilot (misoedd Mawrth ac Ebrill 2023), mynychodd 200 o gydweithwyr y cwrs Argyfwng Hinsawdd a derbyniodd tua 70 dystysgrif Llythrennedd Carbon gan yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Carbon. Yn ystod y cyfnod cyflwyno presennol (ers mis Hydref y llynedd), mae 574 o gydweithwyr eraill wedi cwblhau'r cwrs a 256 wedi

cyflwyno ffurflen dystiolaeth i ennill y dystysgrif. Rydym yn parhau i gyflwyno'r cwrs ac mae croeso mawr i aelodau'r Bwrdd ymuno â'r sesiynau a drefnwyd.

4. Hefyd yn ystod mis Chwefror, cefais gyfarfodydd gyda Marian Spain o Natural England a Francesca Osowska o Nature Scot, a chyfarfod ar wahân gyda Jane Richardson o Amgueddfa Cymru. Cafodd Gareth O'Shea a minnau gyfarfod gyda Chris Llewelyn, prif weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r cyfarwyddwr Tim Peppin. Hefyd, cynhaliais fy nghyfarfod rheolaidd â phrif weithredwyr y tri Pharc Cenedlaethol, lle buom yn trafod y Rhaglen Tirweddau Dynodedig a chynnydd yn erbyn argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth.
5. Bûm ar ymweliad diddorol â chynllun llifogydd Stephenson Street, i weld y gwaith yno, cyn dychwelyd ym mis Mawrth i ffilmio cyfweiliad "cerdded a siarad" gydag ITV Cymru Wales ar gyfer rhaglen Sharp End, a fydd yn ailymweld â'r ardaloedd a gafodd eu taro'n wael gan Storm Dennis yn 2020. Rwyf hefyd wedi ymweld â Grosvenor Timberworks ger Caer, gyda chydweithwyr coedwigaeth i ddysgu am eu gwaith a'u cynlluniau i greu gwerth a marchnadoedd ar gyfer cynhyrchion pren a dyfwyd yn gynaliadwy yn y DU.

Materion strategol

Cyd-ddatganiad Gweinidogion ar ffermio yng Nghymru

6. Ddiwedd mis Chwefror, cyhoeddodd y Prif Weinidog a'r Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd ddatganiad ar y cyd ar Ffermio yng Nghymru. Pwysleisiodd y datganiad rôl bwysig ffermio ac amaethyddiaeth ym mywyd y genedl, ac roedd yn cydnabod yr heriau economaidd sylweddol sy'n wynebu'r sector ffermio. Cyhoeddodd gyllid ychwanegol o £20m i helpu ffermwyr i gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol), a bwriad i benodi cadeirydd allanol annibynnol i oruchwylio'r adolygiad statudol cyntaf o effeithiolrwydd y Rheoliadau.
7. Mae'r datganiad hefyd yn nodi rhai camau nesaf posibl ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), gyda'r ymgynghoriad arno yn cau ddechrau Mawrth. Mae'r datganiad yn nodi y bydd y Prif Weinidog newydd a fydd yn dechrau yn ei swydd yn ddiweddarach yn y mis, am adolygu canlyniadau'r ymgynghoriad yn ofalus a chyflymder gweithredu.
8. Rydym wedi cefnogi datblygiad yr ymgynghoriad SFS terfynol hwn gan Lywodraeth Cymru (LIC) ac yn cefnogi'r weledigaeth gyffredinol a nodir yn *Cadw ffermwyr i ffermio*. Mae'r cynigion yn cynnig cyfle sylweddol i ddarparu polisïau ar draws daliadau amaethyddol yng Nghymru gan arwain at fusnesau amaethyddol mwy cadarn, sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Rydym yn croesawu'r cysondeb rhwng canlyniadau Rheoli Tir Cynaliadwy a geisir o'r cynllun a rhai ein Cynllun Corfforaethol ninnau. Fel pob sector, mae dyletswydd ar amaethyddiaeth i chwarae ei ran wrth fynd i'r afael ag adferiad natur, gwella ein gallu i wrthsefyll i newid hinsawdd a lleihau llygredd, ac rydym wedi'n calonogi'n fras gan y mesurau a nodir i

gefnogi ffermwyr i wneud hynny. Rydym yn cydnabod bod busnesau ffermio yn gweithredu mewn cyd-destun hynod heriol y tu hwnt i'r SFS, gyda phwysau cynyddol yn sgil rheoliadau newydd, chwyddiant, cost mewnbynnau gan gynnwys ynni, ac iechyd a lles anifeiliaid.

9. Byddwn yn cyflwyno ein hymateb i'r ymgynghoriad i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau ar 7 Mawrth.

Materion gweithredol

Rheoli perygl llifogydd

10. Roedd rhan sylweddol o'r gwaith ar gynllun rheoli perygl llifogydd Rhydaman wedi'i gwblhau erbyn gaeaf 2023. Bydd y cynllun gwerth £4.1m yn lleihau'r perygl llifogydd i 223 o adeiladau, seilwaith a gwasanaethau lleol, ac mae'n cynnwys cyfres o furiau llifogydd ac argloddiau pridd drwy'r amddiffyniad lefel y dref ac eiddo i rai cartrefi a busnesau. Mae cored wedi'i symud i helpu i reoli lefelau afonydd a bydd hyn hefyd o fudd i ecosystem yr afon, gan wella llwybr pysgod mudol a statws Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Afon Llŵchwr. Mae gwelliannau cymunedol yn cynnwys gwaith tir cyhoeddus fel gwelliannau tirwedd, gosod meinciau, plannu coed a gwrychoedd.
11. Yn Stephenson Street, dechreuodd y cynllun rheoli perygl llifogydd ym mis Chwefror 2023 ac mae'n cael ei adeiladu gyda rhagamcanion newid hinsawdd y dyfodol mewn golwg, gan ystyried y bydd lefel y môr yn codi dros yr hanner can mlynedd nesaf. Bydd yr amddiffynfeydd newydd, cyfuniad o furiau llifogydd, gatau ac argloddiau glaswellt, yn lleihau'r perygl llifogydd i gartrefi ac ardaloedd diwydiannol pwysig, gan gadw busnesau ar agor a chefnogi'r economi leol ehangach. Mae'r gwaith yn cynnwys cryfhau rhannau o'r arglawdd llifogydd presennol ar hyd glannau dwyreiniol yr afon a chodi muriau llifogydd newydd, codi rhan o'r briffordd a gosod llifddor fawr.
12. Mae'r gwaith o osod 700m o bolion dalen hyd at 10m o ddyfnder wedi'i gwblhau, gan helpu i gryfhau'r arglawdd ar hyd Afon Wysg. Mae'r polion dalen yn ffurfio bron i hanner yr arglawdd llifogydd newydd a chawsant eu gosod gan ddefnyddio gwasg hydrolog, sydd wedi helpu i leihau'r dirgryniadau a'r sŵn sy'n tarfu ar fywyd gwylt a diwydiant lleol yn sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o'r wal goncrit wedi'i hatgyfnerthu o amgylch ystâd ddiwydiannol Felnex hefyd wedi'i chwblhau. Mae gwaith paratoi ar gyfer y rhan uchel o'r briffordd oddi ar Heol Eastbank bron yn barod. Bydd yn darparu llwybr amgen i ddefnyddwyr ffordd yn yr ardal, pe bai'r llifddor ar Corporation Road yn cael ei gweithredu at ddibenion cynnal a chadw neu cyn adegau pan ragwelir llif llanw brig. Fel rhan o'r gwaith, rydym hefyd wedi cwblhau gwelliannau i Lwybr Arfordir Cymru gerllaw, i wella'r llwybr yn weledol a chynnig mwy o hygyrchedd.
13. Cyfanswm gwerth cynllun Stephenson Street yw tua £21m. Mae disgwyl i'r gwaith leihau'r perygl o lifogydd i dros 2,000 o adeiladau yn yr ardal.

Galluogi datgarboneiddio diwydiannol

14. Yn ddiweddar rydym wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (Memorandwm) gyda phrosiect Multi-Utility Service Transit (MUST), datblygiad seilwaith uchelgeisiol gyda'r nod o alluogi datgarboneiddio ar draws diwydiant yn Ne Sir Benfro. Cydweithrediad rhwng cwmnïau ynni Dragon LNG ac RWE yw'r prosiect i adeiladu system dramwy ar draws Aber Afon Cleddau i gludo gwres gweddilliol, carbon deuocsid, hydrogen a dŵr rhwng cyfleusterau.
15. Yn benodol, mae MUST yn bwriadu cludo gwres gweddilliol trwy bibellau o Orsaf Bŵer Penfro i Dragon LNG i'w ddefnyddio yn ei phroses ailnwyieiddio, gan ddisodli defnydd nwy naturiol. Bydd hefyd yn cludo carbon deuocsid a ddelir o Orsaf Bŵer Penfro a phrosiect hydrogen glas Shell i Dragon LNG ar gyfer hylifeiddio ac allforio. Disgwylir i hyn alluogi gwaredu hyd at bum miliwn tonnell y flwyddyn o garbon deuocsid. Ar ben hynny, bydd y prosiect yn cludo hydrogen swmpus i'r gogledd a dŵr crai i'r de ar draws yr Hafan, gan gefnogi ymdrechion ynni adnewyddadwy pellach a datgarboneiddio yn y rhanbarth.
16. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn dynodi ein hymrwymiad i gydweithio'n agos â'r prosiect trwy'r prosesau cynllunio a thrwyddedu. Gan fod y prosiect yn gofyn am amrywiol drwyddedau amgylcheddol a chymeradwyaethau cynllunio, mae ymgysylltu cynnar yn hollbwysig. Mae'r Memorandwm yn sefydlu fframwaith cydweithredol gyda'r nod o wneud y broses gydsynio mor effeithlon â phosibl a lleihau unrhyw oedi diangen, wrth barhau i sicrhau goruchwyliaeth reoleiddiol lawn i ddiogelu'r amgylchedd.
17. Ar y cyfan, rydym yn ystyried prosiect MUST fel cyfle i dreialu ffyrdd newydd o gydweithio'n rhagweithiol â diwydiant i alluogi datgarboneiddio effeithiol. Mae'r prosiect yn enghraifft o fanteision rheoleiddwyr a datblygwyr yn cydweithio o'r cychwyn cyntaf i lywio atebion hinsawdd a sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol gorau posibl. Mae MUST yn cynnig model o gyflymu'r defnydd o dechnolegau datgarboneiddio diwydiannol i gyflawni nodau lleihau carbon dybryd.

Gweithdy Heriau Cydsynio

18. Cynhaliwyd y gweithdy hwn ym mis Chwefror, ddaeth â rhanddeiliaid o bob cwr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat at ei gilydd i fynd i'r afael â'r angen brys am atebion arloesol i adnoddau a symleiddio prosesau cydsynio a chynllunio amgylcheddol yng Nghymru. Roeddem yn ganolog i'r trafodaethau o ystyried ein cylch gwaith eang a'n cyfraniad helaeth at brosiectau fel prosiect MUST yn Ne Sir Benfro.
19. Gyda'r newid i sero net erbyn 2050, disgwylir graddfa ddigynsail o fuddsoddiad mewn prosiectau adnewyddadwy a datgarboneiddio, sydd mewn perygl o lethu adnoddau presennol a chreu oedi. Mae targedau uchelgeisiol ar gyfer 2030 eisoes yn sbarduno datblygiad diwydiannol sylweddol gyda galw ar unwaith am ein gwasanaethau trwyddedu, rheoleiddio a chynghori. Roedd y gweithdy yn gyfle i bawb rannu safbwyntiau ar yr heriau sydd o'n blaenau ac archwilio fframweithiau

newydd ar gyfer cydlynu a chydweithio. Roedd cytundeb ar yr angen am gynllun gweithredu clir i alluogi dyrannu adnoddau arbenigol yn fwy effeithlon ledled Cymru drwy bartneriaethau cyhoeddus-preifat.

20. Cyflwynwyd prosiect MUST fel model cychwynnol ar gyfer cyfuno arbenigedd. Bydd y camau nesaf yn cynnwys datblygu model gweithredu targed y gellir ei gynyddu ledled Cymru, gyda llywodraethu cryf a thryloywder. Y nod yw dylunio ateb sy'n bodloni uchelgeisiau sero net Cymru gan gynnal safonau rheoleiddio yr un pryd.

Diogelwch niwclear ac ymbelydredd

21. Ym mis Ionawr, fe wnaeth staff CNC gyfarfod â staff Gwasanaeth Adolygu Rheoleiddio Integredig (IRRS) yr Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol ynghyd â chydweithwyr o Asiantaeth yr Amgylchedd, Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y Swyddfa Reoleiddio Niwclear, Scottish Environment Protection Agency and Northern Ireland Environment Agency.
22. Mae'r IRRS yn helpu gwledydd lletyol i gryfhau a gwella effeithiolrwydd eu seilwaith rheoleiddio ar gyfer niwclear, ymbelydredd, gwastraff ymbelydrol a diogelwch trafniadaeth. Cyflwynwyd cryn dipyn o waith paratoi gan gynnwys tystiolaeth ddogfennol fanwl ymhell cyn y sesiynau cyfweld. Cwblhawyd yr holl argymhellion sy'n berthnasol i CNC er boddhad yr IRRS.

Asesiad Dylunio Generig - adeiladau niwclear newydd

23. Proses reoleiddio nad yw'n orfodol a oruchwylir gan y Swyddfa Reoleiddio Niwclear, Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC yw'r Asesiad Dylunio Generig i sicrhau bod pwerdai niwclear newydd yn cyrraedd safonau uchel o ddiogelwch, diogeled, diogelu'r amgylchedd a rheoli gwastraff. Mae'r gwaith yn gofyn am barhau i ymgysylltu â chwmnïau dylunio adweithyddion niwclear a gwaith asesu technegol manwl ac yn gyffredinol mae'n cymryd hyd at bedair blynedd i'w gwblhau.
24. Ar hyn o bryd mae lefel y gwaith yn y maes hwn yn ddigynsail ac yn heriol gyda phedwar cwmni yn cyflwyno dyluniadau ar gyfer gwahanol adweithyddion niwclear modiwlwr bach. Adweithyddion y gellid eu lleoli ar leoliadau nad ydynt yn addas ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear drutach a mwy o faint.
25. Ym mis Ionawr, cyhoeddodd llywodraeth y DU eu 'Civil Nuclear Roadmap' sydd wedi'i gynllunio i ddarparu gwybodaeth am raglen niwclear y DU. Mae'r map trywydd yn cynnwys y potensial i adeiladu adweithydd gigawat newydd yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae Wylfa, ar Ynys Môn, yn cael ei grybwyll fel cystadleuydd blaenllaw am leoliad gorsaf mawr o'r fath.

Diweddariad Gorfodi Ch3

26. Yn ystod y cyfnod rhwng Hydref a Rhagfyr 2023, agorwyd 167 o achosion gorfodi newydd. Roedd y rhan fwyaf yn deillio o ddiffyg cydymffurfio rheoleiddiol mewn

safleoedd a ganiateir; cododd tua thraean o'n presenoldeb mewn digwyddiadau. Yn yr un cyfnod, fe wnaethom gau 49 o achosion gorfodi.

27. Arweiniodd 29 achos at erlyniadau yn ystod y cyfnod hwn, gyda 24 yn ymwneud â physgodfeydd a phump yn ymwneud â safleoedd gwastraff. Arweiniodd yr erlyniadau at ddirwyon llys o £40,230 ac roeddem yn gallu adennill £25,101 mewn costau ymchwilio a chyfreithiol. Mae crynodeb llawn o'n gweithgarwch gorfodi wedi'i ddsbarthu i aelodau'r Bwrdd ar wahân.

Cyfathrebu

Cyfathrebu corfforaethol

28. Rydym yn parhau i gyhoeddi gohebiaeth reolaidd i staff am benderfyniadau allweddol, ein sefyllfa ariannol a chynllunio ar gyfer heriau yn ystod y flwyddyn ac yn y dyfodol. Rydym wedi paratoi cynllun ymdrin a fydd yn llywio ein negeseuon mewnol ac allanol am argymhellon i'r Bwrdd a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Bwrdd. Byddwn yn datblygu'r cynllun ymdrin i lywio ein gwaith cyfathrebu am oblygiadau penderfyniadau'r Bwrdd.

Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf

29. Parhaodd y tîm Cyfathrebu i gefnogi ein timau Amgylchedd a Gweithrediadau yn y De-orllewin yn sgil y diddordeb eang ymhlith y cyhoedd a'r cyfryngau am broblem drawdod yn safle tirlenwi Wityhedge, Sir Benfro. Gan ddangos ein bwriad i fod mor dryloyw â phosibl gyda'r gymuned leol, trefnwyd cyfarfod cyhoeddus rhithwir a fynychwyd gan dros 60 o bobl, lle buom yn egluro ein gweithgarwch rheoleiddio ac ateb cwestiynau. Rydym hefyd wedi cyhoeddi datganiadau rheolaidd a negeseuon cyfryngau cymdeithasol gyda diweddariadau cynnydd, wedi cefnogi cydweithwyr sy'n cymryd rhan mewn cyfweiliadau yn y cyfryngau a chyflwyno ffurflen adrodd am aroglau penodol ar ein gwefan er mwyn lleihau'r pwysau ar y Ganolfan Cyfathrebu Digwyddiadau.
30. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n cymheiriaid yng Nghyngor Sir Penfro ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau dull cydlynol o anfon negeseuon am Wityhedge. Mae'r ddeialog agored a reolaidd hon wedi helpu i sicrhau sylw mwy cytbwys a rheoli disgwyliadau'r gymuned leol. O ganlyniad, rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y cwynion a cheisiadau am wybodaeth.

Cymunedau yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd

31. Bu'r tîm Cyfathrebu yn gweithio'n agos gyda'r timau Rheoli Perygl Llifogydd (FRM) a Digidol i lansio'r adroddiad *Gofynion Buddsoddi Hirdymor ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd*. Trefnwyd sesiwn frifio dechnegol ar y cyfryngau ac ymweliad â chynllun llifogydd Stephenson Street i gefnogi'r lansiad, lle rhannodd cydweithwyr FRM negeseuon am heriau rheoli ac ariannu'r perygl llifogydd yng Nghymru yn sgil newid

hinsawdd. Roedd yn weithgaredd llwyddiannus iawn gyda sylw wedi'i sicrhau ar draws ystod o gyfryngau darlledu a'r wasg brint genedlaethol a rhanbarthol.

Byd natur wrthi'n gwella

32. Parhaodd y tîm Cyfathrebu i hyrwyddo ein gwaith ar lawr gwlad i gefnogi adferiad natur, gan gynnwys sut y bydd Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a reolir gan CNC yn elwa ar grant o £500,000 a ddyfarnwyd i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i wella cyflwr Corsydd Môn. Nodwyd ein hymrwymiad i wneud natur yn hygyrch i bawb trwy ein cymorth grant i brosiect ym Mlaenau Gwent a gynlluniwyd i roi cyfleoedd i gymunedau adfer a gwella natur yn eu hardaloedd lleol, yn enwedig yn un o gymunedau mwyaf difreintiedig y wlad.
33. Mae'r dechneg draddodiadol o ddefnyddio ceffylau i wneud gwaith cwmpo coed er mwyn rheoli coetir y Fforest Fawr wedi denu sylw gan raglenni plant a BBC Cymru Wales. Cafodd Diwrnod Gwlyptiroedd y Byd ei nodi gan dîm Cyforgorsydd Cymru LIFE, a gynhaliodd daith dywys rad ac am ddim o amgylch Cors Caron i dynnu sylw at y gwaith hanfodol sy'n mynd rhagddo i adfer a chefnogi cynefinoedd mawndir. Ac mae gwaith cadwraeth ymarferol a ariennir gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur yn parhau i fod yn ffynhonnell dda o straeon, gyda sawl prosiect wedi ymddangos yn ddiweddar ar raglen Galwad Cynnar ar Radio Cymru, Country Focus ar Radio Wales ac mae gwaith ffilmio wedi digwydd ar gyfer Coast and Country ITV.

Rhagolwg

Dydd Mercher 10 Ebrill – Galwad Diweddariad y Bwrdd

Dydd Mawrth 16 Ebrill – Diwrnod Datblygu'r Bwrdd

Dydd Mawrth 14 Mai – Pwyllgor Tystiolaeth a Chynghori

Dydd Mercher 22 a Dydd Iau 23 Mai – Cyfarfod Mis Mai y Bwrdd

Dydd Mawrth 4 Mehefin – Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Dydd Iau 6 Mehefin – Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid

Dydd Iau 13 Mehefin – Pwyllgor Cyllid

Dydd Mawrth 18 Mehefin – Pwyllgor yr Ystad Tir

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	21 Mawrth 2024
Teitl y papur:	Diweddariad y Pwyllgor Cyllid i'r Bwrdd
Cyfeirnod y Papur:	24-03-B03
Noddir y Papur gan:	Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Paratowyd y Papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynir y Papur gan:	Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Diben y Papur:	Gwybodaeth
Crynodeb	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid (FC) – 8 Chwefror 2024 a 5 Mawrth 2024

Cefndir

Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn sgil cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid ar 8 Chwefror a 5 Mawrth 2024. Mae'r papur a'r cofnodion o'r cyfarfodydd hyn ar gael i aelodau'r Bwrdd eu gweld ar system Diligent.

Diweddariad 8 Chwefror

Cyllideb a Chynllun Busnes 2024-25

1. Cyflwynwyd yr ymagwedd at gynllunio busnes a sefyllfa bresennol y gyllideb ar gyfer 2024-25 i'r Pwyllgor Cyllid. Byddai cyfres o sesiynau cyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth i'w trafod ymhellach. Darparwyd awgrymiadau ar ba wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i aelodau'r Bwrdd yn y sesiynau.

Diweddariad am berfformiad ariannol a chymeradwyo

2. Darparwyd gwybodaeth ddiweddaraf perfformiad ariannol 2023-24 gan gynnwys crynodeb byr o'r Rhaglen Gyfalaf a'r gyllideb Refeniw.
3. Cymeradwyodd y Pwyllgor Cyllid ddau fframwaith a chymeradwyo tri chais adran 83.

Adolygiad blynyddol o Daliadau

4. Cyflwynwyd crynodeb i'r Pwyllgor Cyllid o'r codiadau ffioedd rheoleiddiol blynyddol arfaethedig ar gyfer 2024-25 a amlinellwyd yn y papur. Amlinellwyd canlyniadau'r ymgynghoriad, a nodwyd bod yr ymateb yn isel o gymharu â'r Adolygiad Strategol o'r Taliadau a Godir (SRoC).
5. Bu'r Pwyllgor yn ystyried symleiddio'r broses lywodraethu ar gyfer y cynnydd canrannol blynyddol a chymeradwyo'r cynnydd arfaethedig mewn taliadau.

Adroddiadau Archwilio Mewnol - er gwybodaeth yn unig

6. Darparwyd dau Adroddiad Archwilio Mewnol am gyfrifon a rheoli asedau er gwybodaeth.

Diweddariad 5 Mawrth

Adroddiad Perfformiad Ariannol

7. Cafwyd trosolwg o Adroddiad Perfformiad Ariannol Ionawr. Bu newidiadau yng nghyllideb 2023-24 ers mis Ionawr a chafodd y Pwyllgor Cyllid ddiweddariad ar hyn hefyd. Ardystiodd y Pwyllgor Cyllid y newidiadau yn y gyllideb a chymeradwyo'r taliad cyfraniad pensiwn cyflogwr CNC i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF).

Diweddariad Cyllideb a Chynllun Busnes 2024-25

8. Cyflwynwyd y Cynllun Busnes Blynyddol drafft ar gyfer 2024-25 ynghyd â diweddariad o ddatblygiad yr Amcanion Llesiant, a throsolwg o'r risgiau a'r effeithiau o'r ymarfer blaenoriaethu. Rhoddodd y Pwyllgor Cyllid arweiniad ar ba wybodaeth bellach y dylid ei darparu fel rhan o sesiynau'r Bwrdd ar Gyllideb a Chynllun Busnes 2024-25.
9. Cyflwynwyd y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf ar gyfer 2024-25 ynghyd â phapur ar incwm pren.

Diweddariad CNC2030

10. Darparwyd crynodeb o'r Rhaglen CNC2030 gan gynnwys pa wybodaeth fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25. Byddai'r strwythur llywodraethu yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod barn gyfannol ar draws y Rhaglen gyfan.

Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnis partneriaeth TGCh

11. Fe wnaeth y Pwyllgor Cyllid ddadwneud cymeradwyaeth gynharach yn ffurfiol ynghylch cynnis partneriaeth TGCh.

Adolygiad annibynnol o Raglen Gyfalaf Rheoli Risg Llifogydd a gweithredu'r argymhellion

12. Cyflwynodd cynrychiolydd Partneriaethau Lleol argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd. Trafododd y Pwyllgor gamau gweithredu'r argymhellion.

Cyflwyniad ar ddiweddariad 6 misol Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contract (CMSS)

13. Cafodd y Pwyllgor Cyllid y wybodaeth 6 misol diweddaraf am y Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contract (CMSS) gan gynnwys prif feysydd ffocws CMSS yn ystod 2023-24, cau camau gweithredu o archwiliad mewnol, a'r camau nesaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.

Strategaeth fuddsoddi Cronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) sy'n canolbwyntio ar newid hinsawdd, lleihau ymrwymiad carbon a bioamrywiaeth – cyflwyniad

14. Ymunodd cynrychiolwyr o'r EAPF â'r cyfarfod i roi crynodeb o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa a oedd yn canolbwyntio ar newid hinsawdd, lleihau ymrwymiad carbon a bioamrywiaeth.

Adroddiad Perfformiad Ch3 - er gwybodaeth yn unig

15. Nododd y Pwyllgor Cyllid Adroddiad Perfformiad Ch3 a ddarparwyd er gwybodaeth yn unig.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	21 Mawrth 2024
Teitl y papur:	Trosolwg o'r Pwyllgor Ystad Tir
Cyfeirnod y Papur:	24-03-B04
Noddir y Papur gan:	Yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir
Cyflwynir y Papur gan:	Yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir
Diben y Papur	Er gwybodaeth
Crynodeb	Darparu trosolwg o gyfarfod y Pwyllgor Ystad Tir a gynhaliwyd ar 13 Chwefror.

Adroddiad Penaethiaid Busnes

- Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor Ystad Tir ar y meysydd Stiwardiaeth Tir canlynol: lechyd a Diogelwch; Cyllideb Swyddogaethol; Safon Yswiriant; Cronfeydd dŵr; a mastiau Telecom.
- Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor hefyd ar y prosiectau cyfredol a'r ffigurau gwerthu pren, ochr yn ochr â'r rhagolygon gwerthu pren ar gyfer 2024/25. Hefyd, trafodwyd canolfannau ymwelwyr a Trydan.

Strategaeth Hamdden Ddrafft

- Trafododd y Pwyllgor Ystad Tir drafft cyntaf ac elfennau allweddol y Strategaeth Hamdden. Amlygwyd y camau nesaf yn dilyn yr adborth o'r sesiynau ymgysylltu mewnol a gynhaliwyd gyda staff a rhanddeiliaid. Roedd fersiwn gyntaf y Strategaeth wedi'i gosod i gyflawni yn 2030, yn unol â'r Cynllun Corfforaethol.
- Bu'r Pwyllgor yn trafod amcanion y strategaeth. Awgrymwyd bod angen adolygu'r adnoddau a'r offer sydd eu hangen ar gyfer yr amcan newid ymddygiad.

Archwiliad Dwfn o'r broses Gwerthu Pren Amgen a Strategaeth Ddiwydiannol Pren

5. Darparwyd diweddariad ar y broses Gwerthu Pren Amgen (ATS) a Strategaeth Ddiwydiannol Pren (TIS). Mynegwyd pryderon fod y papur yn canolbwyntio'n llwyr ar y rhwystrau a'r problemau o ran datblygiad ATS, a chytunwyd y dylai papurau'r dyfodol adlewyrchu'r amcanion yn well - i gyflawni manteision Pobl, y Blaned a Ffyniant (y 3P yn Saesneg) a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR).
6. Roedd CNC wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y strategaeth, fodd bynnag, cafwyd amserlen ddiwygiedig yn sgil y problemau a godwyd. Byddai'r tîm yn dod yn ôl at y Pwyllgor Ystad Tir gyda diweddariad pellach ar y strategaeth, ac awgrymodd y Pwyllgor fod angen ystyried beth gellid ei wneud yn absenoldeb strategaeth. Trafodwyd Deddf Coedwigaeth 1967 hefyd.

Diweddariad ar Ganolfannau Ymwelwyr

7. Cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor am sefyllfa bresennol canolfannau ymwelwyr CNC a'r goblygiadau masnachol dan sylw. Trafododd y Pwyllgor y materion a'r cyfleoedd a gofynnodd am ragor o wybodaeth.

Unrhyw Fater Arall

8. Byddai cyfarfod Mehefin yn cael ei gynnal trwy Teams. Byddai'r Pwyllgor yn cyfarfod yn y cnawd ar 9 Hydref.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	21 Mawrth 2024
Teitl y papur:	Y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (PCC) – Diweddariad
Cyfeirnod y Papur:	24-03-B05
Noddir y Papur gan:	Mark McKenna, Cadeirydd PCC
Paratowyd y Papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynir y Papur gan:	Mark McKenna, Cadeirydd PCC
Diben y Papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd mewn perthynas â chyfarfod PCC ar 1 Mawrth 2024.

Cefndir

1. Mae'r diweddariad ysgrifenedig hwn ar gyfer y Bwrdd yn ymwneud â chyfarfod Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid (Pwyllgor PCC) ar 1 Mawrth 2024. Gall aelodau'r Bwrdd weld holl bapurau a chofnodion y Pwyllgor trwy borth Diligent.

Diweddariad llafar ar risgiau a materion cyfredol

2. Cafodd Pwyllgor PCC ddiweddariadau llafar ar y risgiau a'r materion sy'n bodoli ar hyn o bryd. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol ddiweddariad ar: y sefyllfa gyllidebol; recriwtio a swyddi gwag; y system rheoli e-ddysgu; gwaith parhaus gyda'r Undebau Llafur/partneriaethau cymdeithasol ac adolygu polisïau.
3. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol ddiweddariad i'r Pwyllgor ar: cyfathrebu rheolaidd a chyson y Prif Weithredwr ar gyfer staff; y cynllun arfaethedig ar drin dulliau cyfathrebu; gwerth y cyfarfod rhithiol ar gyfer holl aelodau'r staff; y system teleffoni newydd ac adnewyddu brand. Trafodwyd cymorth i staff rheng flaen. Hefyd, nodwyd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) ac etholiad arweinyddiaeth y Prif Weinidog.

Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch - Chwarter 3

- Bu'r Pwyllgor yn craffu ar Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch Chwarter 3. Croesawyd yr Adroddiad manwl ac roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys: Adolygiadau Digwyddiadau Difrifol; y gostyngiad mewn adrodd am beryglon a chynnydd mewn adroddiadau am ddamweiniau fu bron â digwydd. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am yr adborth cadarnhaol a gafwyd o'r sesiynau hyfforddi ar bwysigrwydd adrodd am beryglon a damweiniau fu bron â digwydd, a llai o achosion o ganslo cyrsiau hyfforddi.
- Cydnabuwyd pwysigrwydd olrhain adroddiadau am ddigwyddiadau iechyd meddwl fu bron â digwydd. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i gynnwys iechyd meddwl mewn asesiadau risg a sesiynau briffio Iechyd a Diogelwch. Mae sesiynau Llesiant wedi cael croeso da a nodwyd y cyfle i weithio mewn partneriaeth.

Rhaglen Trawsnewid Pobl

- Rhoddwyd diweddariad ar gynnydd blynyddol y Rhaglen Trawsnewid Pobl. Amlygwyd blaenoriaethau 2024-25 a'r canlyniadau allweddol i'w cyflawni erbyn 2025. Nododd y Pwyllgor PCC y tri adroddiad archwilio mewnol a chawsant sicrwydd ar y dulliau olrhain ar gyfer yr argymhellion.
- Ystyriodd PCC y broses ar gyfer gwerthuso'r effeithiau. Cafodd yr elfennau sy'n gorgyffwrdd ac integreiddio â CNC2030 eu cydnabod a'u hystyried, a bydd gwaith pellach yn digwydd. Cydnabuwyd natur gymhleth ac amrywiaeth y rolau o fewn CNC a bod modd defnyddio aelodaeth bresennol cyrff proffesiynol mewn hyfforddiant datblygiad personol.

Diweddariad Rhaglen Rhanddeiliaid

- Rhoddwyd cyd-destun i'r Diweddariad Rhaglen Rhanddeiliaid. Tynnwyd sylw at gamau archwilio mewnol rhanddeiliaid a'r agweddau cadarnhaol. Esboniwyd y camau i gynnal a chynyddu momentwm y Rhaglen, gan weithio gyda CNC2030, ar y pum ffrwd waith.
- Cynigiodd y Pwyllgor PCC adborth a chroesawyd y cyd-destun a ddarparwyd. Deallwyd bod angen amser i gyflawni. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi ac yn deall y gwahaniaethau mewn ymgysylltiad rhanddeiliaid gan dimau gwahanol CNC. Byddai eglurder ar flaenoriaethau corfforaethol y rhaglenni gwahanol yn dal i gael ei ddatblygu.

Dull o ddarparu adnoddau

- Darparwyd cyd-destun ar y gwaith parhaus ar y dull o fynd i'r afael â'r strategaeth adnoddau. Nodwyd yr heriau a rhoddwyd sicrwydd y byddai cyfraniad ac arweiniad cyfreithiol yn cael eu cynnwys.
- Rhoddodd y Pwyllgor sylwadau a chroesawu'r papur, a chafodd sicrwydd y byddai'r strategaeth adnoddau yn cysylltu â Chynllunio Strategol y Gweithlu ac Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Syniadau sy'n datblygu o Gynllun Busnes 2024/25 a'r goblygiadau i PCC

12. Cyflwynwyd goblygiadau Cynllun Busnes 2024/25 i'r Pwyllgor o ran Pobl a Chwsmeriaid. Rhannwyd a thrafodwyd y goblygiadau, y risgiau a'r materion. Ystyriwyd y cyfleoedd i wella profiad y cwsmer a'r posibilïadau o ran symleiddio prosesau.
13. Roedd y Pwyllgor yn gefnogol ac yn croesawu'r wybodaeth, gan gydnabod y cyfleoedd a'r heriau. Cydnabuwyd y pwysau wrth symud ymlaen, ac y byddai cyfathrebu clir yn hanfodol. Nododd y Pwyllgor natur ddeinamig y maes gwleidyddol. Rhoddwyd amlinelliad o'r amserlen a'r broses barhaus a deallwyd cymhlethdodau cyfleu negeseuon.

Amrywiaeth a Chynhwysiant – Amcanion Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiad Blynyddol a Bwlch Cyflog 2024/25

14. Bu'r Pwyllgor yn trafod yr Adroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant (D&I) a'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2024/25 yn fanwl. Amlinellwyd y cynnydd a wnaed a'r camau i'w cymryd, gan flaenoriaethu gwaith yn y dyfodol i ddod yn sefydliad mwy cynhwysol ac amrywiol.
15. Croesawodd y Pwyllgor gynnwys yr Adroddiad gan ystyried y diweddariad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Awgrymwyd arferion gorau gan sefydliadau eraill i gyd-fynd yn well â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Amlinellwyd y pum Amcan Cydraddoldeb Strategol i'r Pwyllgor eu hailategu.
16. Cafodd Adroddiad Blynyddol D&I a'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2024/25 eu cymeradwyo gan y Pwyllgor i'w cyhoeddi. Cymeradwyodd y Pwyllgor ailddatgan y pum Amcan Cydraddoldeb Strategol.

Eitemau gwybodaeth

17. Croesawodd y Pwyllgor yr Adroddiad Cyfathrebu Chwarterol, a chyflwynwyd awgrymiadau ar gyfer Gwybodaeth Rheoli Pobl yn y dyfodol a nodwyd y diweddariadau i'r Polisiâu Pobl.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	21 Mawrth 2024
Teitl y papur:	Diweddariad y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (PrAC)
Cyfeirnod y Papur:	24-03-B06
Noddir y Papur gan:	Dr Rosie Plummer, Cadeirydd PrAC
Paratowyd y Papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
Cyflwynir y Papur gan:	Dr Rosie Plummer, Cadeirydd PrAC
Diben y Papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Mae'r crynodeb hwn yn rhoi diweddariad ar faterion yn dilyn cyfarfod diwethaf PRAC a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2024.

Cefndir

- Mae'r crynodeb hwn yn rhoi diweddariad ar faterion y dylid eu dwyn at sylw'r Bwrdd cyfan ym marn Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig (y Pwyllgor) yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2024.
- I gael rhagor o fanylion, gall holl aelodau'r Bwrdd weld agendâu, papurau, a chofnodion y pwyllgorau drwy'r porth.

Targedau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang a Diweddariad Deddfwriaethol

- Cafwyd cyflwyniadau gan dîm Polisi Amgylcheddol Strategol y Papur Gwyn ar Egwyddorion Amgylcheddol, Targedau Llywodraethu a Bioamrywiaeth a chan Uwch Gynghorydd Arbenigol, Cydnerthedd Ecosystemau a Bioamrywiaeth ar Dargedau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (GBF).
- Trafodwyd y Papur Gwyn a'r ymgynghoriad. Gofynnwyd am sylwadau mewnol ar gyfer ymateb CNC i'r ymgynghoriad sy'n cau ar 30 Ebrill 2024. Mynegwyd pryderon ynghylch i ba raddau y mae'r DU ar ei hôl hi o ran cyrraedd Targedau'r GBF.

Cynllun Ffermio Cynaliadwy (Risgiau a Chyfleoedd ar gyfer Safleoedd Gwarchodedig)

5. Diweddarwyd y Pwyllgor ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) a'r cyfleoedd a'r risgiau a gyflwynir ganddo. Cytunwyd bod goblygiadau'r cynigion presennol ar gyfer safleoedd gwarchodedig yn benodol yn faes risg allweddol ar gyfer adrodd i'r Bwrdd.

Diweddariad ar y Rhaglen Safleoedd Gwarchodedig

6. Diweddarwyd y Pwyllgor ar y Rhaglen Safleoedd Gwarchodedig. Cydnabuwyd yr heriau o fewn y gyllideb a'r angen i flaenoriaethu gwaith. Roedd y tîm yn adolygu ffyrdd o flaenoriaethu'r gwaith, megis maint y problemau presennol a'r brys i ddatblygu dull matrices. Roedd y Pwyllgor yn deall yr adnodd ychwanegol oedd ei angen ac yn ystyried i ba raddau y gallai ddod drwy ffynonellau cyllid ychwanegol.

Adroddiad Ansawdd Dŵr Afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig

7. Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Adroddiad Ansawdd Dŵr Afonydd ACA. Trafodwyd y cyflwyniad a nodwyd pwysigrwydd deall y goblygiadau. Roedd dadansoddiad o'r data cemegol a biolegol wedi'i gwblhau mewn 4000 o leoliadau, a ddaeth i'r casgliad bod amgylcheddau afonydd trefol wedi gwella, ond bod amgylcheddau afonydd gwledig wedi dirywio.
8. Esboniodd y tîm y system fonitro seiliedig ar risg a ddefnyddir i reoli beirniadaeth. Roedd angen dadansoddiad labordy soffistigedig ar rywfaint o'r gwaith monitro a gynhaliwyd gan CNC. Cydnabuwyd rôl gwyddoniaeth dinasyddion wrth ychwanegu at y wybodaeth.
9. Roedd gweithio aml-bartner a diddordeb cyhoeddus mawr, yn sgil sefydlu grwpiau gweithredu fel 'Cyfeillion y Cleddau', yn ychwanegu cyfleoedd a chymhlethdod i'r maes hwn.

Diweddariad ar Hysbysiadau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

10. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar yr hysbysiadau SoDdGA sydd ar y gweill, yn yr arfaeth neu wedi'u cwblhau. Cyflwynwyd crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd o gyfarfod hysbysiad Cae Glas, Wern ym mis Mehefin 2023 i'r Pwyllgor. Trafodwyd y gwelliannau, a nodwyd gwaith parhaus i fynd i'r afael â'r rhain cyn y cyfarfod hysbysiad cyhoeddus posibl nesaf ym mis Mehefin.
11. Cafwyd ymgynghoriad ehangach o fewn CNC, a oedd yn cynnwys y tîm Cyfreithiol, mewn perthynas â'r cynnig wedi'i fireinio o hysbysiad SoDdGA o brotocol tir CNC. Roedd y broses wedi'i chymeradwyo gan y grŵp Safleoedd Technegol ac fe'i defnyddiwyd yn llwyddiannus ar ddarn bach o dir ystâd goedwig CNC a oedd yn rhan o hysbysiad diweddar. Cafwyd trafodaethau gyda'r tîm Stiwardiaeth Tir ynglŷn â'r angen i

wthio pethau ymhellach yn fewnol. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r dull hwn wrth symud ymlaen.

Rhaglen Tirweddau Dynodedig: diweddariad

12. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ysgrifenedig ar yr eitem hon.

Adroddiad Archwilio Mewnol: Rheoli Safleoedd Dynodedig CNC (SoDdGA a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG))

13. Cytunwyd y dylem ailgyflwyno'r eitem hon yn un o gyfarfodydd y dyfodol, er mwyn i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ei gyflwyno i'r Pwyllgor a chaniatáu amser i'w drafod.

Rhagolwg

14. Trafodwyd y Rhagolwg gan y Pwyllgor. Byddai'r Rheolwr Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystemau a'r Athro Steve Ormerod yn ystyried ac yn argymhell lle i gynnal ymweliad safle'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	21 Mawrth 2024
Teitl y papur:	Diweddariad Fforwm Rheoli Tir Cymru
Cyfeirnod y Papur:	24-03-B07
Noddir y Papur gan:	Yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru
Paratowyd y Papur gan:	Bronwen Martin, Cynghorydd Arbenigol: Fforwm Rheoli Tir Cymru
Cyflwynir y Papur gan:	Yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru
Diben y Papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Er Gwybodaeth

Fforwm Rheoli Tir Cymru (y Fforwm)

- Cynhelir cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru bedair gwaith y flwyddyn, ac mae'n gyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sefydliadau aelodaeth eraill y Fforwm rannu gwybodaeth, nodi buddiannau cyffredin a chydweithio ar faterion rheoli tir strategol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Fforwm Rheoli Tir Cymru \(WLMF\)](#)

Diweddariad

Cyfarfod 11 Rhagfyr 2023

- Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf y Fforwm ar 11 Rhagfyr 2023.
- Rhoddodd John Browne, CNC gyflwyniad a throsolwg o'r Pwyllgor Cynghori Rhanbarthol newydd ar Goedwigaeth (RAC). Diben y RAC Coedwigaeth yw darparu cyngor i CNC mewn perthynas â rhai swyddogaethau coedwigaeth penodol yn unol â'r gofyniad statudol dan adran 37 o Ddeddf Coedwigaeth (1967).
- Cafodd holl aelodau'r Fforwm gyfle i holi am Ddiweddariadau CNC a rhannu diweddariadau gan eu sefydliadau eu hunain hefyd.
- Trafododd y grŵp y rhagolwg ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.
- Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ar 11 Mawrth 2024 a disgwylir iddo gynnwys diweddariad ar y gwaith parhaus ar allyriadau amonia a safleoedd gwarchoddedig a

chyflwyniad ar y broses a'r cynnydd o safbwynt diweddarau'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR).

- Unwaith y bydd yr aelodau wedi adolygu a chytuno'n ffurfiol ar gofnodion y cyfarfod, byddant yn cael eu cyhoeddi ar dudalen Fforwm Rheoli Tir Cymru ar wefan CNC.

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

- Prif bwrpas yr Is-grŵp hwn yw nodi cyfleoedd i ddileu llygredd amaethyddol yng Nghymru gan gynnal sector ffermio ffyniannus yn dilyn pum thema allweddol (cyngor ac arweiniad, dull gwirfoddol, rheoleiddio, arloesi a buddsoddiad), a chydweithio ag ystod o randdeiliaid amaethyddol ac amgylcheddol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol](#)

Diweddariad

Cyfarfod 29 Ionawr 2024

- Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd ar 29 Ionawr 2024 ar gyfer aelodau Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol, Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru. Roedd y cyfarfod hwn yn cynnwys dau bwnc o fuddiant cyffredin a gwahoddwyd aelodau o'r tri fforwm i glywed y diweddariadau a chyfrannu at y trafodaethau.
- Ymunodd Hilary Foster, CNC, â'r cyfarfod i roi trosolwg byr o Asesiad CNC o Ansawdd Dŵr mewn Afonydd Gwarchoddedig yng Nghymru. Cyflwynodd Hilary adroddiad ar Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yng Nghymru, gan ddarparu cefndir i Dargedau Ansawdd Dŵr yn yr Afonydd ACA, trosolwg o ganlyniadau'r asesiadau cydymffurfedd a chrynodeb o rai o'r argymhellion cyffredinol.
- Ymunodd Thomaz Andrade, CNC, â'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar ymchwiliadau Diazinon. Rhoddodd Thomaz drosolwg o'r sefyllfa, gan gynnwys cefndir y statws cemegol a'r methiannau cemegol, crynodeb o ganlyniadau'r samplu, trafodaeth fer ar ddadansoddiad o'r hyn a oedd wrth wraidd y broblem a thynnodd sylw at rai o'r camau/mesurau nesaf.

Cyfarfod 26 Chwefror 2024

- Roedd Is-Grŵp y Fforwm a gynhaliwyd ddydd Llun 26 Chwefror 2024 yn cynnwys y pynciau/trafodaethau agenda canlynol:

- Cyflwyniad a thrafodaeth gan Lywodraeth Cymru am broses adolygu pedair blynedd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.
- Cyflwyniad gan Jon Goldsworthy, CNC ar Brosiect Dalgylch Arddangos Teifi.

- Trosolwg a thrafodaeth am Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA ac argymhellion dilynol.

13. Cynhelir cyfarfod nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ddydd Llun 22 Ebrill 2024.

14. Unwaith y bydd yr aelodau wedi adolygu a chytuno'n ffurfiol ar gofnodion y cyfarfod, byddant yn cael eu cyhoeddi ar dudalen Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar wefan CNC.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	21 Mawrth 2024
Teitl y papur:	Adroddiad Perfformiad Ariannol
Cyfeirnod y Papur:	24-03-B09
Noddir y Papur gan:	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid
Paratowyd y Papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes
Cyflwynir y Papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid
Diben y Papur:	Cymeradwyaeth (newid mewn rhagolygon) / Trafodaeth (Perfformiad Ariannol)
Crynodeb	<p>I nodi bod y Pwyllgor Cyllid wedi cymeradwyo:</p> <p>Newid yn y rhagolwg diweddaraf o £270.2m i £272.8m a ragwelir.</p> <p>Taliad i gronfa bensiwn EAPF o £6.894m.</p> <p>I graffu ar:</p> <p>Berfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Ionawr 2024.</p>

Cefndir

1. Mae papur ar wahân ar gyfer cymeradwyaeth.

Perfformiad ariannol hyd at 31 Ionawr 2024

2. Mae'r Adroddiad Perfformiad Cyllid yn rhoi manylion am gynnydd ar draws y mathau gwahanol o incwm, gwariant a rhaglenni. Mae Atodiad A yn crynhoi'r negeseuon allweddol mewn perthynas â:

- Newid yn y rhagolygon o gymharu â'r rhagolwg blaenorol a gymeradwywyd a'r gyllideb wreiddiol.
- Perfformiad hyd at ddiwedd mis Ionawr 2024, o'i gymharu â'r rhagolwg a gymeradwywyd yn flaenorol a'r gyllideb wreiddiol.

- Risgiau i ni allu gwario o fewn ein lefelau cyllido oherwydd effaith pwysau cyflog a lefel yr incwm pren a'r mesurau rydyn ni wedi'u cymryd i leihau'r risg honno.
 - Y wybodaeth ddiweddaraf am gyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ers ar ôl y cyfnod adrodd (Ionawr).
 - Sylwebaeth drwy eithriad ar sut rydyn ni'n gwneud cynnydd yn erbyn y rhagolwg diweddaraf ar gyfer y mathau gwahanol o incwm a gwariant.
3. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi craffu ar yr adroddiad ariannol hwn ac wedi cymeradwyo'r newid yn y rhagolygon a'r taliad i'r gronfa bensiwn (a ariennir gan LIC).

Risgiau a chyfleoedd

4. Mae gennym risg yn y Gofrestr Risg Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer 'gwariant blwyddyn'. Mae hyn hefyd yn cysylltu â'r risg strategol "Methiant i sicrhau sefydlogrwydd ariannol". Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, lleihawyd y risgiau o orwario diolch i'r camau a gymerwyd gan y Tîm Gweithredol a chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.
5. Y goblygiadau ehangach yw:
- (a) **Cyllid:** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â pherfformiad ariannol CNC. Mae gennym risg o fewn y Gofrestr Risg Cyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.
- (b) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFGA):** Mae pob elfen o'r gyllideb yn cyfrannu at un neu lawer o'n Hamcanion Llesiant.

Camau Nesaf

6. Bydd y Tîm Gweithredol yn parhau i fonitro'r prif risgiau o fewn y gyllideb.
7. Rydym yn annog rheolwyr cyllideb a phrosiectau i roi gwybod i'r tîm Cyllid am unrhyw newidiadau i'r rhagolygon y gellir eu dychwelyd yn ganolog.
8. Byddwn yn parhau i gynnal ein prosesau cyllid arferol ac yn adolygu'r risgiau yn y gyllideb gydol y flwyddyn. Mae rhaglenni fel Trawsnewid Busnes, Llifogydd a Natur ac Argyfyngau Cyfalaf yn cael eu hailragfynegi bob mis.
9. Cynhyrchir yr adroddiad hwn bob deufis ar gyfer y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.

Argymhelliad

10. Y Bwrdd i gymeradwyo newidiadau i'r rhagolwg diweddaraf, o £270.2m i £272.8m.
11. Y Bwrdd i graffu ar berfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Ionawr 2024.

Mynegai Atodiadau

Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Ariannol



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**




**NRW Board
21st March 2024
January 24 Finance Report**

Content and Key Messages



Update will cover:	Messages:
1. Update on the latest forecast changes as at January 2024 compared to the opening budget.	1. Budget changes are predominantly linked to additional GiA allocation relating to the change in accounting standards for leases (£3.2m) and Peatlands work within the NaCE programme (£0.3m), which is offset by a reduction in commercial income linked to timber income and surrenderable wind energy, which have reduced by £0.5m & £0.4m respectively.
2. Financial Performance as at January 2024.	2. Expenditure at the end of January equates to £199m against a planned spend of £200m with £74m (27%) remaining to be utilised by the end of the financial year. We anticipate to spend in line with the revised full year budget allocation of £273m and utilise the additional funding provided by Welsh Government in February, which is not included in this forecast. Overprogramming across the various capital programmes has reduced considerably following the confirmation of additional WG capital funding.
3. Update on the plan to balance in year budgetary pressures.	3. Actions have been taken and agreed with the Executive Team to balance the budget given our estimated revenue budget deficit of £2.1m at the beginning of January.
4. To note, Finance Committee have endorsed the change in forecast since the last report from £270.2m to £272.8m - mostly as a result of an increase in Grant in Aid offset by a decrease in charges and commercial income.	4. We were notified of additional revenue Grant in Aid (£2m) from WG in early February which has been prioritised to resolving our salaries budget deficit, providing for an over-spend in our other staff costs, placing some budget back into Forest Operations and balancing our over-programming. We now have limited over-programming commitment remaining in our revenue budget.
5. To note, Finance Committee have approved further changes to forecast not yet incorporated into the figures above: additional Grant in Aid and funding provided by WG to pay into the Environment Agency Pension Fund (EAPF).	5. WG has also allocated a further £3.1m capital Grant in Aid – which has been prioritised to Flood, Reservoirs and NaCE. There is the possibility of further funding (£1.18m for LiFE) and expect confirmation soon. We now have limited over-programming commitment remaining in our capital budget.
6. To note, Finance Committee have approved the payment to the EAPF.	6. WG have provided us with £7m to pay into the EAPF. There is no net benefit to NRW, as WG had already assumed in our budget settlement for next financial year a credit of £7m.
	7. At the beginning of March, the Head of Sustainable Commercial Development forecasted an upturn in the timber income forecast of £1.2m. We have discussed options with the Finance Committee about how this can be utilised.
	8. The revised forecast for regulatory and permitting has been approved and incorporated. This has led to a reduction in income but an increase in the use of balances.

Financial Performance – Income Forecast



Charges

Charge income has reduced by £2.4m to reflect the latest position in respect to permitting and applications - as discussed with ET and Finance Committee in January and February. This is being met by increasing the burden on the charge regime reserves by £2.4m.

Commercial

Commercial income has reduced by £0.9m linked to timber income and surrenderable wind energy, which have reduced by £0.5m & £0.4m respectively. The change in surrenderable income is balanced by reductions in compensatory planting budget and in the payment to WG, after our costs have been deducted. The reduction in timber income was one of the reasons for seeking further budget reductions in January.

European & Other External

External income has reduced by £0.2m in line with predicted expenditure.


Grant in Aid

Overall increase of £3.5m linked to the change in accounting standards for leases (£3.2m) and Peatlands work within the NaCE programme (£0.3m).

Use of Reserves

Due to the reduction in charge income we have had to utilise reserves, which puts further pressure on the various charge regimes for future years.

Financial Performance – Expenditure Forecast



Financial Performance - Income



INCOME	Actual	Approved Forecast	Variance	Approved Forecast	Remaining Budget	Commentary
by Account Type	YTD	YTD	YTD	FY	FY	
	£m	£m	£m	£m	%	
Charges	31.4	31.4	0.0	41.3	24%	Forecast has reduced by £2.4m following consideration by the Executive Team in January. Reductions in the income forecast have been reflected against charge funded balances, which will utilise surpluses under some charge regimes, but take others further into deficit. Year to date income is in-line with the revised forecast and we expected this to be the case at the end of the financial year. A further review will be undertaken after the end of the year where the effect of vacancies on spend will be better understood, which will inform options to be considered by Executive Team ahead of producing the 2025/26 charge proposals.
Commercial	44.4	44.1	0.4	55.9	21%	Timber sales are current ahead of profile following strong January performance. However, the Commercial Team feel that that keeping the current forecast of £30.6m at the present time is prudent and will be reviewed again in early March.
European & external	4.5	4.3	0.2	7.2	37%	Income received is in line with expectations. Any reduction or increase will likely have an equal and opposite effect on expenditure.
Grant in aid	112.9	112.7	0.2	165.2	32%	Income received slightly ahead of plan, linked to the Wales Coastal Path project.
Use of Reserves	0.0	-0.0	0.0	3.3	100%	The full year forecast for use of charge balances has increased due to the revision in forecast of charge scheme income noted above. The actual use of reserves adjustment will be calculated in early May.
TOTAL: NRW	193.2	192.4	0.8	272.8	29%	

Financial Performance - Expenditure




EXPENDITURE by Account Type	Actual YTD £m	Approved Forecast YTD £m	Variance YTD £m	Approved Forecast FY £m	Remaining Budget FY %	Commentary
Staff	93.8	93.5	-0.3	116.2	19%	The vacancy rate has remained at 9% from November, although staff numbers have increased slightly in the month of January, despite the recruitment freeze. As a result and as noted in our November report, the recruitment freeze is unlikely to deliver all the targeted savings with an expected deficit of around £0.8m. The current overspend of £0.3m is within other staff costs, mainly on people support costs. However, with the notification of additional revenue Grant in Aid from WG in early February, we have been able to cover both shortfalls.
Non Staff	54.8	54.5	-0.2	82.1	33%	The position on non staff costs has changed from an underspend of £0.9m in November to an overspend in January of £0.2m. This is mainly due to budget profiling within EPP and an overspend in Business Transformation within F&CS, which will be corrected by the end of the financial year. However, overspend on these Directorates is offset by an underspend within Operations linked to Land Stewardship activities, a trend which has continued from November. Following the January budget reduction exercise and the additional funding provided by Welsh Government, we expect costs across all Directorates to be in line with the full year allocation at year end. Following the processing of those adjustments, we expect our revenue over-programming to be fully negated.
Revenue Projects	6.6	6.6	0.0	11.6	43%	There are minor variances over numerous projects. The risk in the revenue programme is currently low.
Capital Projects	43.6	45.0	1.4	62.9	31%	The current expenditure position is linked to an under spend within the NaCE and Land Stewardship programmes of £1.8m and £0.3m, which is offset by over spends within flood (£0.5m) and Business Transformation (£0.3m). Additional overheads have been factored into almost all programmes except WG Grants, which forms only a small element of the overall capital position and will be adjusted in February. The Flood over-programming has been managed downwards to £0.6m. Previously, we had planned to remove the over programming through the utilisation of underspend within other GiA funded capital programmes (Reservoir Compliance £0.15m and Coal Tips of £0.5m), however, following the notification of additional funding from WG we are now able to remove the deficit and bring forward work planned for next financial year, predominantly linked to Stephenson Street. Business Transformation overprogramming has now been reduced down to £0.7m. This is predominantly related to ICT workstream who will continue to review the position and are confident the balance will be zero by the end of the Financial year. NaCE overprogramming is currently £1.6m, representing 7% of the funding available, however, given the current underspend and the need to work within the overall funding allocation, this will reduce considerably in February. The additional £0.4m allocation confirmed by WG on 14 February will be reflected in February's figures.
TOTAL: NRW	198.8	199.7	0.9	272.8	27%	

Financial Performance – Expenditure Trends



EXPENDITURE TRENDS



Commentary:

As expected, we continue to see an increase in expenditure this financial year compared to the same point in previous years. Spend at the end of January is £198.8m, which is £23m more than that incurred at the same point last financial year. The full year forecast for this year is currently £272.8m, which is £26m more than the costs incurred last financial year. .

Financial Performance – Revenue Projects



Revenue Projects	Actual	Approved	Variance	Approved	Remaining	Commentary
by Programme	YTD £m	YTD £m	YTD £m	FY £m	FY %	
External Funded	3.6	3.4	-0.2	5.3	32%	Overall revenue projects are on target. The majority of programmes have now been reviewed to assess the ability to absorb the increase in staff and corporate costs, with the system being adjusted to reflect these changes. The remaining elements will be adjusted in February.
Internal Funded	1.5	1.4	-0.1	2.2	32%	
NaCE	0.7	1.0	0.2	1.4	46%	
Other	0.0	0.0	0.0	0.1	69%	
Business Transformation	0.3	0.3	0.0	0.9	71%	
Grants	0.5	0.5	0.0	1.8	71%	
TOTAL: NRW	6.6	6.6	0.0	11.6	43%	

Financial Performance – Capital Projects



Capital Projects by Programme	Actual	Approved	Variance	Approved	Remaining	Commentary
	YTD	Forecast	YTD	Forecast	Budget	
	£m	£m	£m	£m	%	
Business Transformation	5.4	5.1	-0.4	8.4	35%	Business Transformation capital overprogramming has reduced to £0.7m. This is predominantly related to ICT workstream who will continue to review the position with Business Transformation Team, working to reduce to zero by the end of the Financial year.
External Funded	2.4	2.8	0.4	4.4	44%	Externally funded projects are on track to come in on budget at year end. Possibility of additional funding from WG is being discussed, that could alleviate pressure in future years (but not yet agreed).
Flood Risk	20.1	19.6	-0.5	23.5	14%	The Flood overprogramming has reduced to £0.6m. Previously, we had planned to remove the over programming through the utilisation of underspend within other GiA funded capital programmes (Reservoir Compliance £0.15m and Coal Tips of £0.5m), however, following the notification of additional funding from WG we are now able to remove the deficit and bring work planned for next financial year, predominantly linked to Stephenson Street.
Internal Funded	2.0	2.1	0.0	2.6	22%	Current expenditure position in line with the year to date budget, which is expected to continue to year end.
NaCE	12.7	14.6	1.8	20.9	39%	Additional funding has been received for the Peatlands element of the NaCE programme, which has been offset by the increased corporate cost charge. Overprogramming is currently £1.6m, representing 7% of the funding available. Given the current underspend and the need to work within the overall funding allocation, this will reduce considerably in February. Some equipment purchases have been delayed into next financial which will also help manage the current over-programming. The additional £0.4m allocation confirmed by WG on 14th February will be reflected in February's figures and will help bring some elements back into this years programme.
IFRS 16 Capital Leases Only (non-cash)	0.9	0.9	0.0	3.2	72%	The funding reflects the change in accounting treatment of leases. Costs will run inline with the allocated budget to year end.
TOTAL: NRW	43.6	45.0	1.4	62.9	31%	

Contingency and over-programming budgets



Balances (contingencies and programme under/overs)	Previous (November)	Current (January)	Movement	Predicted balance (end Feb)	Comments
	£m	£m	£m	£m	
In Year Pressure balancing targets					
Non staff reduction targets	-2.1	0.0	-2.1	0.0	The budget reduction exercise that was undertaken in December is now reflected within the reports.
Increased overhead charge distribution	-1.6	0.2	-1.8	0.0	Welsh Government have agreed the additional corporate charges, with the majority of programmes now reflecting the revised charge of 13.5%. This has resulted in an additional saving of £0.2m above the predicted value which will be used to balance the revenue budget.
Staff					
Pay Award Provision and staff reduction	3.9	3.7	0.2	-0.1	Once the pay award budgets have been distributed, the overall net pressure will be £1.0m, which is offset by expected salary savings in February and March of £0.2m, leaving a net pressure of £0.8m which is being funded by additional revenue Grant in Aid.
Programmes - under/over programming					
NaCE	-2.0	-1.7	-0.3	0.0	NaCE overprogramming across the revenue & capital programmes has reduced by £0.3m from November. Given the current underspend position and the need to work within the overall funding allocation, this will reduce considerably in February. Some equipment purchases have also been pushed into next financial which will also help manage the current overprogramming. Once the additional GiA capital funding has been distributed the over programming will reduce to zero.
Flood Risk Capital	-2.3	-0.6	-1.7	0.0	Flood overprogramming has reduced by £1.7m from the November position. Previously, we had planned to remove the over programming through the utilisation of underspend within other GiA funded capital programmes (Reservoir Compliance £0.15m and Coal Tips of £0.5m), however, following the notification of additional funding from WG we are now able to remove the deficit and bring forward work planned for next financial year. With the additional GiA capital funding, the over programming will be removed.
Business Transformation	-2.1	-1.3	-0.8	0.0	The Business Transformation overprogramming now stands at £1.3m across the various project and non staff budgets. This overprogramming has reduced considerably since November, with a plan to come inline to the full year allocation by year end.
Water Resources Capital	0.2	0.1	0.1	0.0	The under programming has reduced by £0.1m, due to reallocation to projects.
Welsh Government Grants	-0.1	-0.1	0.0	-0.1	Small balances on various grants, mainly Wales Coastal Path.
Other					
Central Overprogramming	-0.5	-2.0	1.5	0.0	The central overprogramming has increased by £1.5m following the external funding audit (£0.9m), forecasted reduction in timber income (£0.5m) and further revenue pressures (£0.3m), which has been offset by deferring a contribution to next financial year. However, following the January budget reduction exercise along with additional savings across WG grant corporate cost charge, WR capital & commercial income, the central overprogramming and additional funding from WG this will be removed. These changes will be reflected within the February accounts.
Directorate Overprogramming	-0.1	0.0	-0.1	0.0	The overprogramming within core facilities programmes has reduced.





Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	21 Mawrth 2024
Teitl y Papur:	Adroddiad Chwarter 3 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ac Adroddiad Chwarter 3 Perfformiad Mewnol
Cyfeirnod y Papur:	24-03-B10
Noddir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol
Paratowyd y Papur gan:	Sioni Davies, Cyngorydd Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad
Cyflwynir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol
Diben y Papur:	Cymeradwyo Adroddiad Chwarter 3 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ac Adroddiad Chwarter 3 Perfformiad Mewnol
Crynodeb	<p>Mae Adroddiad Chwarter 3 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes ac Adroddiad Chwarter 3 Perfformiad Mewnol am y cyfnod hyd ddiwedd Rhagfyr 23 wedi'i gyflwyno yma.</p> <p>Yn ystod y cyfnod hwn, nid oes unrhyw faterion Coch wedi'u hadrodd ar Ddangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes, ond mae nifer y materion Oren wedi codi o saith yn Ch2 i wyth yn Ch3.</p> <p>Cyflwynwyd mesurau rheoli tynnach ar gyllidebau recriwtio a di-staff i reoli'r pwysau cyllideb yn ystod y flwyddyn ym mis Awst 23, ac rydym wedi bod yn monitro effaith y mesurau hyn ar gyflawni ein cynllun busnes. Mae perchnogion y mesurau wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r effaith hon ar eu gallu i gyflawni. O'r wyth mesur a adroddodd yn Oren yn Ch3, dim ond dau adroddwr mesurau a nododd broblemau gydag adnoddau fel ffactor sydd wedi effeithio ar ddarpariaeth.</p> <p>Mae disgwyliadau ar gyfer diwedd y flwyddyn, fodd bynnag, yn awgrymu y <i>bydd</i> problemau gydag adnoddau'n cael effaith sylweddol ar gyflawni a darparu, gyda chwech o'r wyth mesur a ragwelir fel rhai Oren ar ddiwedd y flwyddyn yn nodi sicrhau adnoddau yn ffactor. Mae'r mesurau perfformiad Cynllun Busnes hyn yn is-set fach o weithgareddau CNC, ac mae'n bwysig cydnabod bod y mesurau rheoli adnoddau cyfredol yn arwain at bwysau sylweddol ar draws pob rhan o'r sefydliad. Pe bai ein holl weithgareddau'n cael eu cynnwys yn yr</p>

adroddiad hwn, byddem yn disgwyl gweld mwy o ragolygon Oren a Choch ar gyfer diwedd y flwyddyn.

Mae'r Tîm Cynllunio Corfforaethol wedi cynnig cymorth ychwanegol sylweddol ar gyfer y cylch adrodd hwn, gyda gweminarau ar gyfer perchnogion mesurau cyn cyflwyno, a her gadarn ar ôl cyflwyno i helpu i sicrhau bod adroddiad Ch3 yn cynnwys digon o fanylion a disgwyliadau realistig ar gyfer diwedd y flwyddyn.

Mater

1. Mae trydydd chwarter cylch adrodd am berfformiad Cynllun Busnes 23/24 wedi'i gwblhau. Mae'r papur hwn yn gyfle i Fwrdd CNC graffu ar berfformiad y trydydd chwarter.

Cefndir

2. Mae **Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes** yn un o brif ddulliau Bwrdd CNC o graffu ar gyflawni a darparu. Fe'i datblygwyd ochr yn ochr â Chynllun Busnes 23/24, gan weithio gyda Bwrdd CNC, y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain. Mae'r Cynllun Busnes blynyddol hwn yn ymwneud â'n Cynllun Corfforaethol hyd at fis Mawrth 2030.
3. Rydym yn datblygu fframwaith i fodoli wrth ochr y Cynllun Corfforaethol newydd: yn y cyfamser, mae'r dangosfwrdd Cynllun Busnes hwn yn adlewyrchu mesurau a gariwyd drosodd o 22/23 yn bennaf, wedi'u trefnu o gwmpas ein tri Amcan Llesiant newydd.
4. Gellir gweld Adroddiad Perfformiad Dangosfwrdd y Cynllun Busnes yn Atodiad 1 ac mae'n cynnwys:
 - **Dangosfwrdd** sy'n darparu trosolwg o berfformiad yn erbyn mesurau 23/24 sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun busnes ac sy'n cyd-fynd â'r Amcanion Llesiant sydd wedi'u hadlewyrchu yn ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynllun Busnes Blynyddol 23/24.
 - **Manylion pob mesur penodol** gyda'u safle cyfredol (Ch3) a safle disgwylidig diwedd blwyddyn, wedi'u nodi yn ôl Amcan Llesiant.
